



JOINTLY OWNED BY



HM Treasury



Adolygiad o'r Trefniadau Ariannu Cyfredol ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd

Adroddiad Terfynol

Dyddiad Cyhoeddi: 5 Rhagfyr 2019



1	CYFLWYNIAD.....	3
2	SWYDDOGAETHAU STATUDOL AHC.....	5
3	STRWYTHUR AHC.....	7
4	CYLLID AHC.....	11
5	ADOLYGIAD O WEITHGAREDDAU AHC.....	16
6	ADOLYGIAD O GOSTAU AHC.....	18
7	ADOLYGIAD O GYFRANIADAU STRATEGOL AHC.....	25
8	SEFYDLIADAU TEBYG POSIBL.....	28
9	TREFNIADAU LLYWODRAETHU AHC.....	29
10	CRYNODEB O'R CASGLIADAU A'R ARGYMHELLION.....	32
ATODIAD A	TELERAU ALLWEDDOL Y CYTUNDEB ADRAN 165.....	35
ATODIAD B	DADANSODDIAD O GYLLIDEB GORBENION AHC 2019/20.....	37
ATODIAD C	SWYDDOGAETHAU AHC.....	40
ATODIAD CH	UNIGOLION YR YMGYNGHORWYD A HWY.....	43
ATODIAD D	DOGFENNAU A ADOLYGWYD.....	44

1 CYFLWYNIAD

Cefndir

1. Trwy Gytundeb dyddiedig 27 Mawrth 2000 a wnaed yn unol ag Adran 165 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 ("y Cytundeb Adran 165") rhwng Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ("CDBC") a Chyngor Dinas Caerdydd ("y Cyngor"), cytunodd y Cyngor i gymryd cyfrifoldeb am yr ymgymeriadau a rhwymedigaethau awdurdod harbwr dan delerau Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1983 ("y Ddeddf"). Yn ddiweddarach fe ysgwyddodd Llywodraeth Cymru hawliau a rhwymedigaethau CDBC dan y Cytundeb Adran 165.
2. Caiff y trefniadau ar gyfer ariannu Awdurdod Harbwr Caerdydd ("AHC") eu nodi yn y Cytundeb Adran 165 a gweithredoedd amrywio dilynol, y bu chwech ohonynt dros y 19 mlynedd ddiwethaf. Gweinidogion Cymru sydd â'r cyfrifoldeb am ariannu'r swyddogaethau a'r rhwymedigaethau a drosglwyddwyd i'r Cyngor dan y Cytundeb mewn perthynas â'r rôl awdurdod harbwr statudol. Rôl Llywodraeth Cymru yw rhoi'r cyllid angenrheidiol i'r Cyngor i alluogi AHC i gyflawni ei ddyletswyddau a swyddogaethau statudol dan Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993.
3. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ariannu AHC dan gytundebau tair blynedd, y daeth yr olaf ohonynt i ben ym mis Mawrth 2017. Hysbysodd Llywodraeth Cymru ei bod yn dymuno adolygu'r trefniadau ariannu, ac felly fe estynnwyd y cytundeb hwnnw am 12 mis, i'w gwneud yn bosibl cynnal adolygiad o'r fath. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd yr adolygiad y bwriadwyd ei gynnal yn hydref 2017, ac fe gytunwyd wedyn ar ail estyniad o 12 mis, a bennodd lefel ariannu o £5.400m ar gyfer 2018/19, a oedd yn ostyngiad o £0.491m (8.3%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
4. Yn ystod yr adolygiad hwn, cytunwyd ar drydydd estyniad o 12 mis, gyda chyfanswm cyllideb o £5.223m wedi'i bennu ar gyfer 2019/20, sy'n ostyngiad pellach o 3.3%.
5. Yng ngoleuni pwysau difrifol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn dal i gydweithio i ymchwilio ar y cyd i'r opsiynau ar gyfer adnabod cyfleoedd pellach i wneud arbedion effeithlonrwydd ar gostau gweithredol AHC.

Adolygiad Local Partnerships

6. Gofynnwyd i Local Partnerships adolygu'r trefniadau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor a nodir yn y Cytundeb Adran 165 ar gyfer ariannu a rheoli morglawdd, llyn mewndirol a harbwr allanol Bae Caerdydd gan gynnwys y swyddogaethau a dyletswyddau dan gymal 15 (Yr Ymgymeriad) o'r Cytundeb Adran 165. Yn benodol, mae'n ofynnol bod yr adolygiad hwn:
 - yn hwyluso adolygiad bob chwe blynedd o gostau, gan gydymffurfio â Chymal 16.5 o'r Cytundeb Adran 165,
 - yn ystyried cyfraniad AHC at Raglen Symud Cymru Ymlaen 2016-20 Llywodraeth Cymru a'i rôl o ran cyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r weledigaeth ar gyfer Bae Caerdydd;

- yn ystyried unrhyw gais ariannol gan AHC yng nghyd-destun setliad ariannol ehangach llywodraeth leol ac yn egluro a oes cyfiawnhad neu fel arall dros fynnu bod cyllideb AHC mewn blynyddoedd yn y dyfodol yn gyson â setliadau ehangach y sector cyhoeddus;
 - yn ystyried cyfnod setliad sy'n ymestyn dros dymor hwy;
 - yn ystyried a oes cyfle i gyflawni gwerth gwell am arian wrth gyflawni'r swyddogaethau awdurdod harbwr statudol gan gynnwys modd i sicrhau arbedion ariannol mwy hirdymor. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r gweithgareddau a gyflawnir gan AHC a phenderfynu a ydynt yn gwbl angenrheidiol dan Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd;
 - yn ystyried telerau ac amodau presennol y Cytundeb (megis defnyddio Cronfa Hapddigwyddiadau a Phrosiect yr Harbwr) i gymryd gofynion gweithredol a risg i ystyriaeth;
 - yn canfod a oes sefydliad sy'n sylweddol debyg i AHC yn bodoli (er mwyn galluogi'r partion i gynnal ymarfer meincnodi);
 - yn ystyried sut y caiff gwariant ar seilwaith ei drin ac yn adnabod a oes cyfle i ailddosbarthu unrhyw gostau refeniw yn y gyllideb costau sefydlog fel rhai cyfalaf. Gwerthuso asesiad AHC o'i ofynion ei hun ar gyfer adnewyddu asedau yn y dyfodol i ganfod a yw'n defnyddio sail cyflwr/asesiad risg ac a roddwyd ystyriaeth i fesurau lliniaru;
 - yn archwilio cyfleoedd ar gyfer rhagor o weithgareddau creu incwm a ffynonellau eraill ar gyfer creu incwm, gan gynnwys trwy ddefnydd tir; ac
 - yn archwilio trefniadau llywodraethu cyfredol.
7. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rydym wedi ymgynghori â phersonél o Lywodraeth Cymru, y Cyngor, AHC, Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") ac Associated British Ports ("ABP"). Estynnwn ein gwerthfawrogiad i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn a gynhaliwyd gennym. Ceir rhestr o'r unigolion yr ymgynghoron ni â hwy yn Atodiad D.
 8. Ceir rhestr o'r dogfennau a adolygwyd yn Atodiad E.
 9. Ceir crynodeb o'n casgliadau a'n hargymhellion yn Adran 10. Deallwn fod ymarfer ar wahân wedi cael ei gynnal gan Isadrn Ystadau Llywodraeth Cymru, a bod argymhellion penodol wedi cael eu gwneud ynghylch y trefniadau ar gyfer rheolaeth ystâd strategol ar y portffolio tir ac eiddo a weinyddir gan AHC, y dylid eu hystyried ar y cyd â'r adroddiad hwn.

2 SWYDDOGAETHAU STATUDOL AHC

Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993

10. Dan y Ddeddf, gellir crynhoi swyddogaethau a dyletswyddau statudol AHC fel a ganlyn:
- gweithredu a chynnal Morglawdd Bae Caerdydd er mwyn diogelu a gwella amgylchedd ac amwynderau'r bae mewndirol;
 - agor neu gau'r fflodiardau a llifddorau yn y morglawdd
 - rheoli llif dŵr yn yr ysgolion pysgod yn y morglawdd
 - rheoli'r ffyrdd, pontydd ac adeiledd neu offer arall sy'n rhan o'r morglawdd
 - rheoli'r bae mewnol a'r harbwr allanol:
 - hwyluso'u defnydd gan gychod pleser a llongau eraill ac ar gyfer chwaraeon dŵr a gweithgareddau hamdden eraill
 - sicrhau bod ansawdd y dŵr yn y bae yn cyrraedd y safon berthnasol
 - datblygu a gwarchod y fflora a'r ffawna
 - canfod, atal ac atgyweirio difrod i eiddo sy'n deillio o unrhyw addasiad i lefelau dŵr daear

Cytundeb Adran 165

11. Mae Cymal 15 o'r Cytundeb Adran 165 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyflawni'r holl swyddogaethau a dyletswyddau statudol sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf, a pha bynnag swyddogaethau anstatudol eraill y disgwylir i awdurdod harbwr eu cyflawni fel arfer, yn benodol:
- gweithredu a chynnal a chadw Morglawdd Bae Caerdydd gan gynnwys agor a chau'r lociau, y llifddorau a'r ysgol bysgod o ddydd i ddydd
 - cydymffurfio â'r holl gyfreithiau amgylcheddol mewn perthynas â gweithrediad Morglawdd Bae Caerdydd i gyrraedd y safon amgylcheddol ofynnol
 - cynnal a monitro lefel ac ansawdd y dŵr o fewn y terfynau rhagnodedig fel a nodir yn y Ddeddf
 - rhoi trwyddedau a chasglu taliadau priodol
 - cyflawni rôl statudol awdurdod harbwr gan gynnwys gwahardd neu symud llongau peryglus, gwneud a gorfodi is-ddeddfau a chynnal a chadw goleuadau a bwiau fel sy'n ofynnol gan Trinity House
 - datblygu a gwarchod y fflora a'r ffawna yn ardal Bae Caerdydd
 - gweithredu'r mesurau gwarchod a chydbwyso dŵr daear
 - darparu neu gaffael pa bynnag seilwaith sy'n rhesymol angenrheidiol ym marn y Cyngor i ddefnyddio'r pwerau a chyflawni'r dyletswyddau dan y Ddeddf gan gynnwys parcio ceir, llithrfeydd, cyfleusterau cyhoeddus a manau gwybodaeth
 - hybu'r defnydd o ardal Bae Caerdydd, gan gynnwys hwyluso defnydd gan longau ac ar gyfer gweithgareddau hamdden cyffredinol.
12. Mae Cymal 16.1 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu i'r Cyngor y symiau sy'n angenrheidiol i wneud y canlynol:
- cyflawni ei swyddogaethau dan Ddeddf 1993
 - cynnal a chadw'r holl eiddo sy'n rhan o'r Bae, y Morglawdd a'r ardaloedd ategol
 - cyflawni'r rhwymedigaethau sydd wedi'u cynnwys mewn contractau ategol/cysylltiedig

- bodloni unrhyw rwymedigaethau sy'n codi o weithredoedd neu ddiffyg gweithredu gan drydydd partion
13. Byddai gofyn i unrhyw newidiadau yn y Cytundeb Adran 165 gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor. Yn unol â chais Llywodraeth Cymru, yn Atodiad C rydym wedi nodi trosolwg o'r Cytundeb Adran 165 a'i delerau allweddol o ran costau, cyllideb a chyfnodau ariannu, monitro ac adrodd ar berfformiad, hawliadau a threfniadau talu.

Argymhelliad

14. O ystyried nifer y Gweithredoedd Amrywio y cytunwyd arnynt ers 2000, rydym yn argymhell bod fersiwn eglur a chyfun o'r Cytundeb Adran 165 yn cael ei llunio.

3 STRWYTHUR AHC

Cyflwyniad

15. Mae strwythur AHC yn seiliedig ar y timau canlynol:
- Morglawdd
 - Harbwrfeistr
 - Canolfan Gweithgareddau Dŵr Bae Caerdydd
 - Yr Amgylchedd, Contractau a Chyswllt Cymunedol
 - Rheoli a Chymorth Gweithredol
16. Mae cyfanswm staff AHC ar gyfer 2019/20 yn 56.8 o staff CagALI. Mae pob un ond dau o'r unigolion hyn wedi'u neilltuo i gyflawni gweithgareddau AHC. Caiff y rhaniad rhwng pob tîm ei nodi isod.

Morglawdd

Rôl	CagALI
Rheolwr y Morglawdd	1
Gweithredu'r Morglawdd:	
Rheolwyr Sifftiau'r Morglawdd	5
Ceidwaid y Lociau	10
Y Tîm Peirianeg Fecanyddol a Thrydanol:	
Prif Beiriannydd	1
Peirianwyr Mecanyddol	3
Prentis Peirianeg Fecanyddol	2
Peirianwyr Trydanol	2
Prentis Peirianeg Drydanol	1
Peiriannydd Cynllunio a Chynnal a Chadw	1
Cyfanswm Staff: Morglawdd	26

17. Mae'r Tîm Morglawdd yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediadau Morglawdd Bae Caerdydd o ddydd i ddydd, gan gynnwys y lociau, pontydd, llifddorau ac ysgolion pysgod. Mae ystafell reoli'r morglawdd yn cael ei staffio 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn, gyda phob un o'r pedair sifft yn cael eu staffio â Rheolwr Sifft a dau Geidwad Lociau.
18. Mae gan y Tîm Morglawdd rôl allweddol o ran amddiffyn rhag llifogydd a chynnal lefelau dŵr yn y bae mewnol dyfroedd croyw 200 hectar o faint o fewn terfynau dynodedig. Maent yn gyfrifol am reoli lefelau halltedd o fewn y bae mewnol a thrwy'r system o gywasgyddion, pypiau a phibellwaith, am gynnal lefelau ocsigen tawdd o fewn y bae mewnol yn unol â Dangosyddion Perfformiad Allweddol.
19. Mae'r Tîm Peirianeg yn darparu gwasanaethau mecanyddol a pheirianegol i gynnal a chadw asedau seilwaith AHC. Cydnabyddir yn gyffredinol eu bod yn weithlu ymrwymedig ac ymatebol, sy'n meddu ar y profiad sy'n angenrheidiol i adnabod a chywiro methiant yn seilwaith y Morglawdd ar adeg gynnar. A hwythau'n brofiadol, maent yn weithlu sy'n

heneiddio; dyna pam fod AHC wedi cyflwyno prentisiaid at ddibenion cynllunio ar gyfer olyniaeth.

Harbwrfeistr

Rôl	CagALI
Harbwrfeistr	1
Harbwrfeistr Cynorthwyol	1
Goruchwyliwr y Cei	1
Gweithredwyr Morol	4
Gweithredydd Morol Dan Hyfforddiant	1
Meistri Cychod	3
Peiriannydd Morol	1
Prentis Peirianeg Forol	1
Cyfanswm Staff	13

20. Mae'r tîm Harbwrfeistr yn gyfrifol am ddiogelwch defnyddio dŵr a rheoli mordwyo o fewn y bae mewnol, yr harbwr allanol a'r afonydd Taf ac Elái, ac am orfodi is-ddeddfau, a chyflwyno hysbysiadau i longwyr. Mae tîm hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod safonau glendid yn cael eu cyrraedd yn y bae ac o'i amgylch trwy gasglu malurion a sbwriel, gan gynnwys cynnal a chadw'r system awyru a lleoli offer llygredd. Fel yr awdurdod goleudai lleol maent hefyd yn cynnal yr holl gymhorthion statudol ar gyfer mordwyo.
21. Mae gan dros 1,300 o longau hamdden angorfeydd yn ardal AHC ar hyn o bryd, ac mae dau glwb plerlongau mawr wedi'u lleoli ym Mae Caerdydd. Mae'r tîm yn gyfrifol am drwyddedu gweithredwyr masnachol, ac am gynnal a chadw dau bontŵn cyhoeddus a naw safle bysiau dŵr. Ar hyn o bryd mae naw gweithredydd masnachol yn yr harbwr a gludodd 193,000 o deithwyr yn 2018/19.
22. Maent yn defnyddio fflyd o naw llong, sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan y peiriannydd morol.

Yr Amgylchedd, Contractau a Chyswllt Cymunedol

Rôl	CagALI
Arweinydd Tîm	0.9
Contractau, Dŵr Daear ac Adeiladau:	
Uwch Dechnegydd	1
Technegydd Dŵr Daear	1
Rheolwr Arolygon Eiddo ac Adeiladau	1
Yr Amgylchedd:	
Swyddogion yr Amgylchedd	3
Swyddog Technegol	1
Technegwyr Samplu a Chynnal a Chadw	1.9
Cyswllt Cymunedol (gan gynnwys Marchnata a Chyfathrebu):	
Swyddog Cyswllt Cymunedol	0.6
Swyddog Cyfathrebu a Phrosiectau	1
Cyfanswm Staff:	11.4

23. Mae dyletswyddau'r tîm yn cynnwys:

- lawrlwytho, prosesu a storio data o System Monitro Dŵr Daear Bae Caerdydd, yn ogystal â rheoli ei gweithrediad, y broses o'i chalibro a'i chynnal
- nodi, gosod a monitro contractau a chytundebau lefel gwasanaeth
- monitro a chynnal safonau ansawdd dŵr o fewn y bae mewnol;
- gwarchod, diogelu, cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol yn y bae mewnol
- cynnal yr amgylchedd adeiledig o amgylch y bae mewnol
- goruchwylio'r gwaith i gyflawni digwyddiadau a rhaglenni addysgol yn y Bae a'r ardal o'i amgylch
- cynnal gweithgareddau marchnata a chyfathrebu, megis hyrwyddo ar-lein trwy wefannau a'r cyfryngau cymdeithasol, a darparu deunyddiau gan gynnwys taflenni, mapiau a byrddau gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd
- adnabod a chynnal gweithgareddau masnachol.

Canolfan Gweithgareddau Dŵr Bae Caerdydd ("CGDBC")

Rôl	CagALI
Rheolwr y Ganolfan	1
Swyddogion Gweithgareddau Dŵr	2
Cynorthwyyr Gweithgareddau Dŵr Achlysurol	0.2
Cyfanswm Staff	3.2

24. Mae CGDBC, sydd wedi'i lleoli ar yr afon Taf, yn darparu nifer o gyrsiau hyfforddi ar y dŵr (canwio, rhwyfo, dingi) a gweithgareddau ar y tir ar gyfer unigolion a grwpiau. Mae hefyd yn darparu mynediad ar hyd llithrfa i'r cyhoedd at y bae, yn unol â rhwymedigaethau AHC dan y Ddeddf i hybu mynediad cost isel at y dŵr ar gyfer y boblogaeth leol ac ymwelwyr â'r bae.

Rheoli Gweithredol, Gweinyddu Busnes a Chymorth Gweithredol

Rôl	CagALI
Rheolwr Gweithredol	0.5
Swyddog Cyllid	1
Derbynnydd / Cynorthwyydd Gweinyddol	1
Swyddog Gwybodaeth am Berfformiad	0.7
Cyfanswm Staff:	3.2

Rheoli'r Gweithlu

25. Mewn ymateb i'r ffaith bod y gweithlu'n heneiddio, dros y pum mlynedd ddiwethaf mae AHC wedi bod yn canolbwyntio ar gynllunio'r gweithlu sydd wedi arwain at greu pedwar cynllun prentisiaethau / hyfforddeiaethau newydd, ym meysydd peirianeg forol, drydanol a mecanyddol, gweithrediadau morol / morwriaeth. Mae unigolion sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hyn yn camu ymlaen at swyddi parhaol i sicrhau parhad o ran y sylfaen sgiliau.

4 CYLLID AHC

Cyllideb Costau Sefydlog

26. Mae'r tabl isod yn crynhoi setliad cyllideb costau sefydlog AHC dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf. Er bod cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer AHC wedi bod yn cael ei roi ar sail cytundebau tair blynedd, daeth yr olaf o'r rhain i ben ym mis Mawrth 2017; felly mae pob un o'r cyllidebau a nodir isod wedi bod yn cael eu cytuno'n flynyddol.

	Cyllideb 2017/18 £k	Cyllideb 2018/19 £k	Cyllideb 2019/20 £k
Staff a Gorbenion	4,091	3,921	3,868
Cyflogeion	2,641	2,613	2,584
Safleoedd	514	478	440
Trafnidiaeth	46	46	46
Cyflenwadau a Gwasanaethau	342	342	342
Gwasanaethau Cymorth	548	442	456
Marchnata a Hyrwyddo	200	200	50
Dŵr Daear	150	110	110
Monitro ac adrodd ar ddŵr daear	20	17	17
Gweithredu a Chynnal Rheolaeth Dŵr Daear	120	91	91
Gweinyddwr Cwynion Annibynnol	8	0	0
Arolygon Ychwanegol o Gyflwr Adeiladau	2	2	2
Pysgod	135	135	135
Rheoli Cyfleusterau	310	305	305
Cynnal a chadw Roald Dahl Plass	223	223	223
Archwilio / arolygu ymylon y bae'n flynyddol	10	10	10
Cynnal a chadw ymylon y bae, argloddiau, rhodfeydd, ffensys, offer diogelwch dŵr a llithrfeydd	25	20	20
Cynnal a chadw safleoedd bysiau dŵr a phontynau	10	10	10
Cynnal a chadw cadwyni dal sbwriel	5	5	5
Gwarchod, goleuo a rhoi arwyddion ar bierau pontydd afonydd	2	2	2
Gweithredu Canolfan Gweithgareddau Dŵr Bae Caerdydd	35	35	35
Rheoli Plâu	55	47	47
Morglawdd	1,040	1,040	1,190
Gweithrediadau cynnal a chadw wedi'u trefnu a heb eu trefnu	440	440	440
Carthu'r harbwr allanol	600	600	750
Yr Amgylchedd	384	366	366
Monitro siltio yn y Bae, y sarnau perllannog a'r harbwr allanol	30	27	27
Monitro siltio yn yr afonydd a'r bae	15	13	13
Gweithredu a gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd i'r system awyru a'r llong ocsigeneiddio symudol	69	69	69
Casglu malurion o'r bae a glannau afonydd	60	60	60
Rheoli planhigion goresgynnol	70	65	65
Gwaredu'r holl wastraff, malurion a chwyn	62	59	59
Gwaredu llysnafedd algaid	7	6	6
Datblygu a gwarchod ffawna a fflora, gwlypdiroedd a rheoli'r amgylchedd yn gyffredinol	16	16	16
Cynnal a chadw'r strwythurau pren	5	5	5
Monitro ansawdd dŵr	50	46	46
Incwm	(820)	(920)	(993)
Cyllideb Costau Sefydlog	5,545	5,204	5,078
Newid (o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol)	(0%)	(6.1%)	(2.4%)

27. Mae'r gostyngiad blynyddol yng nghyllideb costau sefydlog AHC yn nhermau arian parod (h.y. heb gynnwys chwyddiant) dros y ddwy flynedd ddiwethaf o 6.1% a 2.4% fel a ddangosir uchod yn cynrychioli parhad o ran y gostyngiadau yn y cyllid a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.
28. Mae'r tabl isod yn crynhoi gwariant gwirioneddol o'i gymharu â'r gyllideb costau sefydlog dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf.

	Amrywiant 2016/17		Amrywiant 2017/18		Amrywiant a Ragwelir 2018/19	
	£k	%	£k	%	£k	%
Staff a Gorbenion	153	4%	109	3%	44	1%
Marchnata a Hyrwyddo	32	16%	24	12%	0	0%
Dŵr Daear	(7)	(4%)	(53)	(36%)	(16)	(14%)
Pysgod	0	0%	0	0%	0	0%
Rheoli Cyfleusterau	7	2%	155	50%	2	1%
Rheoli Plâu	(13)	(23%)	(13)	(24%)	(12)	(26%)
Morglawdd	35	3%	(97)	(9%)	(30)	(3%)
Yr Amgylchedd	(74)	(20%)	(58)	(15%)	16	4%
	134	2.1%	67	1.1%	4	0%
Incwm	195	24%	71	9%	(4)	(0%)
Gwariant Costau Sefydlog	(61)	(1.1%)	(4)	(0.1%)	0	0%

29. Mae'r Cytundeb Adran 165 yn caniatáu i'r Cyngor drosglwyddo gwariant ar draws penawdau'r gyllideb, gydag unrhyw danwariant neu orwariant yn cael ei fesur dim ond yn erbyn y gyllideb costau sefydlog yn ei chyfanrwydd, gyda hwnnw'n cael ei rannu'n gyfartal rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor, yn amodol ar gapio rhwymedigaeth y Cyngor. £100,000 oedd y cap, ond mae bellach wedi'i ostwng i £40,000 gan weithred amrywio dyddiedig 26 Ebrill 2018.
30. Mae'r duedd hirdymor ar gyfer cyllideb costau sefydlog AHC yn nhermau arian parod (heb gynnwys chwyddiant), wedi golygu:
- gostyngiad o £987,000 (16%) ers 2014/5
 - gostyngiad o £5,604,000 (52%) ers 2000/1
31. At ddibenion cymharu, mae cyfanswm y cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol wedi gostwng 1.75% yn nhermau arian parod.

Casgliadau

32. Dros y chwe blynedd ddiwethaf, mae cyllideb costau sefydlog AHC wedi gostwng yn gyson yn nhermau arian parod, ar gyfradd sy'n uwch na'r gostyngiad yn y cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Cynnal Refeniw i lywodraeth leol ledled Cymru.
33. Mae'r amrywiadau mewn gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb costau sefydlog ar y cyfan wedi bod yn fach iawn, er bod amrywiannau arwyddocaol wedi digwydd mewn perthynas â phenawdau cyllideb penodol.

Cyllideb Adnewyddu Asedau

34. Yn ychwanegol at y gyllideb costau sefydlog, mae'r setliad ariannu hefyd yn cynnwys cyllideb adnewyddu asedau, y cytunir arni'n flynyddol, yn seiliedig ar asesiad AHC ei hun o'i ofynion o

ran cynnal a chadw ac adnewyddu. Mae'r tabl isod yn crynhoi setliad cyllideb adnewyddu asedau AHC dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf.

	Cyllideb 2017/18 £k	Cyllideb 2018/19 £k	Cyllideb 2019/20 £k
Harbwr Mewnol		-	
Morglawdd			
Newid Rholiwr Uchaf Llifddorau	17		
Pontydd Gwrthbwys – Cynnal a Chadw	57	165	35
Paneli Trydan Lociau – Eu Newid			80
Yr Amgylchedd			
Model Ansawdd Dŵr	32		
Cywasgyddion System Awyru	28		
Offer Chwarae Parc Britannia	9		
Dŵr Daear			
Pwmp Ymsuddol – Ei Newid		6	
Harbwrfeistr			
Harbwr 1, Newid Llong	300		
Pwmp Allan yn Ne'r Morglawdd – Ei Newid		25	
Craen Wedi'i Osod ar Ddec cwch gwaith Harbwr 2			30
Cyllideb Adnewyddu Asedau	443	196	145

35. Roedd cyllideb 2017/8 yn cynrychioli dyraniad cychwynnol o £346k a dyraniad ychwanegol dilynol o £97k a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2018.
36. Mae'r tabl isod yn crynhoi gwariant adnewyddu asedau gwirioneddol AHC o'i gymharu â'r gyllideb dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf.

	Amrywiant 2016/17		Amrywiant 2017/18		Amrywiant a Ragwelir 2018/19	
Gwariant Adnewyddu Asedau	(56)	(16%)	(75)	(17%)	0	0%

37. O dan delerau'r Cytundeb Adran 165, caiff gwariant AHC yn erbyn y Gyllideb Adnewyddu Asedau ei hadennill yn unol â'r gost gan Lywodraeth Cymru, er y byddai unrhyw orwariant ar y Gyllideb Adnewyddu Asedau'n cael ei ysgwyddo'n gyfartal rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru.
38. O ran tuedd hirdymor cyllideb adnewyddu asedau AGC yn nhermau arian parod (heb gynnwys chwyddiant), gwelwyd gostyngiad sylweddol, o £187,000 (56%) ers 2014/5.

Argymhelliad

39. O ystyried natur arbenigol rhai o asedau seilwaith AHC, mae'n annhebygol bod Llywodraeth Cymru, wrth gytuno ar ddyraniadau cyllideb blynyddol, yn meddu ar yr arbenigedd gofynnol i werthuso rhesymoldeb a phriodoldeb y ceisiadau a gyflwynwyd. Gan bod y rhain bellach tuag 20 oed, rydym yn argymhell bod sefydliad â phrofiad addas yn cael comisiwn ar y cyd gan

AHC a Llywodraeth Cymru i gynnal arolwg cynhwysfawr o gyflwr yr asedau a chynllun cynnal a chadw ac adnewyddu asedau i'r dyfodol sy'n seiliedig ar asesiad risg, i oleuo lefelau'r gyllideb adnewyddu asedau yn y dyfodol.

40. Rydym yn deall bod cynnydd eisoes yn cael ei wneud yn hyn o beth a bod y gwaith paratoi dogfennaeth dendro bellach wedi dechrau gyda golwg ar gynnal arolwg o'r fath yn yr hydref. Ochr yn ochr â hyn, mae AHC hefyd wrthi'n ystyried pa systemau TG y mae eu hangen i gefnogi dull rheoli asedau mwy cadarn.

Cronfa Hapddigwyddiadau a Phrosiect yr Harbwr

41. Mae'r Cytundeb Adran 165 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddal Cronfa Hapddigwyddiadau a Phrosiect. Caiff y Cyngor gadw'r holl dderbyniadau cyfalaf sy'n deillio o waredu tir a berchnogir gan y Cyngor fel rhan o Ymgymeriad yr Awdurdod Harbwr ond rhaid iddo gredydu'r enillion sy'n deillio o werthu unrhyw dir o'r fath i'r gronfa hon. Hefyd, caiff cyfran 50% y Cyngor o unrhyw arbedion yn y Gyllideb Costau Sefydlog ei chredydu i'r cyfrif hwn.
42. Gall y Cyngor dynnu arian i lawr o'r Gronfa Hapddigwyddiadau a Phrosiect, gan ymgynghori â Llywodraeth Cymru, er mwyn:
- gweithredu ei bwerau a chyflawni ei ddyletswyddau fel a nodir yn y Ddeddf, gan gynnwys mewn perthynas â phob eiddo y mae'n meddu arno fel a restrir yn y Cytundeb Adran 165;
 - ariannu gwariant ar gyfer gwaith arall i wella ac ychwanegu at seilwaith, asedau, gweithgareddau neu wasanaethau yn y Bae neu o'i amgylch.
43. Ceir crynodeb isod o'r credydau, tyniadau i lawr a balansau yng Nghronfa Hapddigwyddiadau a Phrosiect yr Harbwr dros y 3 blynedd ddiwethaf, ers ei lefel frig ar 1 Ebrill 2016.

	Refeniw £k	Cyfalaf £k	Cyfanswm £k
Balans ar 1 Ebrill 2016	664	112	756
Tyniadau i lawr 2016/17			
Ffi Cynnal Ras Fôr Volvo	(186)		
Credydau 2016/7			
50% o Arbedion ar Gostau Sefydlog	21		
Derbyniadau Cyfalaf		0	
Balans ar 1 Ebrill 2017	479	112	591
Tyniadau i lawr 2017/18			
Gwaith Tynnu Cruglwythi o Afon Taf	(100)		
Gwaith ym Mhentir Alexandra		112	
Credydau 2017/8			
50% o Arbedion ar Gostau Sefydlog	3		
Derbyniadau Cyfalaf		0	
Balans ar 1 Ebrill 2018	382	0	382
Tyniadau i lawr 2018/19			
Ffi Cynnal Ras Fôr Volvo	(214)		
Gwaith ym Mhentir Alexandra	(128)		
Credydau 2018/9			
50% o Arbedion ar Gostau Sefydlog	0		
Derbyniadau Cyfalaf		0	
Balans a Ragwelir ar 1 Ebrill 2018	40	0	40

44. Mae rhwymedigaeth ar y Cyngor i gadw balans isaf yn y gronfa, ac yn amodol ar gadw'r balans hwnnw mae'n ofynnol iddo dynnu i lawr o'r gronfa cyn cyflwyno unrhyw hawliadau ychwanegol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag unrhyw gostau nas rhagwelwyd. £100,000 oedd y balans isaf, ond mae bellach wedi gostwng i £40,000 yn ôl y Weithred Amrywio dyddiedig 26 Ebrill 2018, gan ystyried y galwadau ar y gronfa yn ystod 2018/9 fel a nodir uchod.

Casgliad

45. Ar ei lefel gyfredol, mae gallu'r gronfa i ynysu Llywodraeth Cymru rhag ceisiadau am gyllid ychwanegol sy'n deillio o ddigwyddiadau nas rhagwelwyd yn eithriadol o gyfyngedig. Mae gallu parhaus Cronfa Hapddigwyddiadau a Phrosiect yr Harbwr i ateb ei diben bwriadedig yn debygol o fod yn ddibynnol ar argaeledd derbyniadau cyfalaf yn y dyfodol o werthu tir. Er ein bod yn cael ein hysbysu gan AHC na ragwelir unrhyw dderbyniadau cyfalaf o'r fath, byddem yn argymhell bod AHC yn cynnal cyswllt ag Isadran Ystadau Llywodraeth Cymru er mwyn ffurfio dealltwriaeth gyffredin am y potensial ar gyfer derbyniadau cyfalaf yn y dyfodol, er enghraifft trwy ystyried unrhyw gyfleoedd ar gyfer cydgysylltu daliadau tir AHC/Llywodraeth Cymru i gynyddu gwerthoedd tiroedd. Rydym yn deall bod ymarfer ar wahân wedi cael ei gynnal gan Isadran Ystadau Llywodraeth Cymru, a bod argymhellion penodol wedi cael eu gwneud ynghylch y trefniadau ar gyfer rheolaeth ystâd strategol ar y portffolio tir ac eiddo a weinyddir gan AHC.

5 ADOLYGIAD O WEITHGAREDDAU AHC

Gwasanaethau Gorfodol, Statudol a Dewisol

46. Mae Cynllun Busnes AHC 2018-19 yn nodi tri phrif nod ar gyfer AHC:
- cynnal a gwella amgylchedd eithriadol, cynaliadwy;
 - darparu cyfleusterau a gweithgareddau eithriadol i sicrhau bod Caerdydd yn dal i fod â lleoliad ar y glannau sydd o'r radd flaenaf; a
 - gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid i sicrhau hyder parhaus gan y cyhoedd a buddsoddwyr yng Nghaerdydd.
47. Mae'r nodau hyn yn uchelgeisiol ac ymddengys eu bod yn mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol a nodir yn Adran 2. O ganlyniad, rydym wedi adolygu'r gweithgareddau a gyflawnir gan AHC er mwyn penderfynu a ydynt yn angenrheidiol dan y Ddeddf, gan ystyried asesiad AHC ei hun o'i gyfrifoldebau, yn benodol pa un a yw pob un:
- yn orfodol dan y Ddeddf;
 - yn gytundebol dan y Cytundeb Adran 165, gan gydnabod y byddai gofyn cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a'r Cyngor i unrhyw newid yn y Cytundeb Adran 165, ac felly bod y rhwymedigaethau ynddo'n debyg o ran statws i'r rhai o dan y Ddeddf; neu
 - yn ddewisol.
48. Fel a nodir yn Atodiad C, rydym wedi amlygu dwy swyddogaeth fel rhai dewisol, ond dim ond i adlewyrchu'r ffaith bod y Ddeddf yn caniatáu i AHC gyflawni'r gweithgareddau hynny, yn hytrach na'i bod yn ei orfodi i wneud hynny. Fodd bynnag, gan bod y cyfrifoldebau penodol hyn yn ymwneud â gosod taliadau ac is-ddeddfau, mae'r ffaith bod AHC wedi dewis cyflawni'r swyddogaethau naill ai'n creu refeniwiau neu'n dwyn goblygiadau bach iawn o ran costau yn y drefn honno.
49. Gan nodi rhwymedigaeth AHC dan y Cytundeb Adran 165 i "hybu'r defnydd o ardal Bae Caerdydd, gan gynnwys hwyluso defnydd gan longau ac ar gyfer gweithgareddau hamdden cyffredinol", y digwyddiadau yr ystyrir eu bod yn unol â hyn yw digwyddiadau, cyfathrebu a masnacheiddio. Gan bod y gyllideb digwyddiadau wedi cael ei dirwyn i ben yn 2019-20, a'i bod yn ofynnol o ganlyniad bod digwyddiadau'n eu hariannu eu hunain, mae'r gweithgaredd a oedd yn dwyn y gost fwyaf sylweddol yn y cyswllt hwn wedi cael ei dynnu allan o'r gyllideb erbyn hyn.

Ansawdd Gwasanaeth

50. Mae adolygiadau blaenorol wedi cadarnhau bod cleientiaid a rhanddeiliaid AHC wedi mynegi lefel uchel o fodlonrwydd. O ganlyniad, roedd cynnal cyfweiliadau o'r newydd i holi am fodlonrwydd cleientiaid a rhanddeiliaid y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn.
51. Fodd bynnag, fe gyfarfuom â chynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Associated British Ports, fel rhanddeiliaid a chymdogion allweddol AHC er mwyn cael eu hadborth ar berfformiad AHC. Roedd y ddau'n canmol AHC i'r cymylau, ac mae'n amlwg i ni wrth gynnal yr adolygiad bod AHC yn dal i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da.
52. Mae'r tabl isod yn nodi perfformiad AHC yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf:

Rhif	DPA	2017-18		2018-19	
		Targed	Canlyniad	Targed	Canlyniad
1	Canran y darlleniadau ocsigen tawdd ym Mae Caerdydd sy'n cyrraedd lefel o 5 miligram y litr o ocsigen tawdd neu fwy	100%	99.76%	100%	98.69%
2	Bydd AHC yn cychwyn 90% o'r gweithrediadau glanhau difrys o fewn 5 diwrnod gwaith i gael cwyn a brofwyd	90%	100%	90%	100%
3	Nifer y gweithgareddau cynnal a chadw hanfodol a gyflawnwyd ar y Morglawdd	292	233	235	272
4	Nifer y teithwyr a gludwyd ar longau masnachol	150,000	185,512	210,000	192,621
5	Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau AHC	1,100,000	1,303,350	1,150,000	1,316,446
6	Cyfanswm incwm AHC	£820,000	£890,674	£820,000	£957,622
7	Lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid ar gyfer AHC	95%	98.2%	95%	95%
8	Lefelau bodlonrwydd rhanddeiliaid o arolwg blynyddol o bartneriaid	90%	93%	90%	90%

53. Er bod AHC yn monitro lefelau ocsigen tawdd ac yn ymateb yn brydlon i unioni tramgwyddau, gan ddefnyddio'r cwch ocsigen a'r system awyru, fe'n hysbysir gan AHC, mewn perthynas â DPA 1, nad yw'n bosibl cyflawni lefel gydymffurfio o 100% ym mhob lleoliad bob amser. Mae'r DPA hwn yn deillio o'r gofyniad dan y Ddeddf bod rhaid i AHC weithredu'r morglawdd yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd rhesymol a roddir gan CNC i ddiogelu ansawdd dŵr yn y Bae, lle gall CNC nodi'r safon y dylid ei chyrraedd.

Casgliad

54. Mae AHC yn darparu gwasanaeth o ansawdd da ac mae'n uchel ei barch ymhlith cleientiaid a rhanddeiliaid. Mae ein hasesiad ni'n cyd-fynd ag asesiad AHC ei hun, fel a nodir yn Atodiad C, sef bod gweithgareddau AHC ym mhob ffordd berthnasol naill ai'n orfodol dan y Ddeddf neu'n destun rhwymedigaeth gytundebol dan y Cytundeb Adran 165.
55. A ninnau wedi cadarnhau nad yw gweithgareddau cyfredol AHC yn cynnwys gweithgareddau dewisol perthnasol, fe gynhaliom ni adolygiad manwl o gyllideb costau sefydlog AHC er mwyn canfod a oes cyfle i gyflawni gwerth gwell am arian o ran y modd y cyflawnir y swyddogaethau awdurdod harbwr statudol a chyflawni arbedion ariannol mwy hirdymor.

6 ADOLYGIAD O GOSTAU AHC

Cyflwyniad

56. Rydym wedi adolygu costau AHC mewn manylder, ac rydym yn ddiolchgar i AHC am y ffordd y maent wedi ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth. Gan gyfeirio at y penawdau cyllideb a nodir yn y tabl blaenorol, mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad a sylwebaeth ar gostau AHC, yn seiliedig ar lefel cyllideb 2019/20.

Cyflogeion: £2,584,000

57. Mae hyn yn cynrychioli'r gost gyflogaeth mewn perthynas â'r strwythur staffio a nodir yn Adran 3. Cyflogir staff AHC gan y Cyngor, ar delerau ac amodau a graddau cyflog y Cyngor. Mae cyllideb 2019/20 yn ymgorffori arbedion ar gostau cyflogaeth o £210k, trwy ostyngiadau staff, a gaiff eu gwrthbwysu'n rhannol gan gostau codiadau cyflog. Ac eithrio ar gyfer dau unigolyn, mae'r holl gyflogeion wedi'u neilltuo i weithio ar gyfer AHC, felly ychydig iawn o angen sydd i amcangyfrif dosraniad costau ar sail amser.

58. Mae rhaniad costau cyflogeion yn ôl swyddogaethau AHC fel a ganlyn:

• Morglawdd	£1,242,000
• Harbwrfeistr	£485,000
• Canolfan Gweithgareddau Dŵr Bae Caerdydd	£149,000
• Yr Amgylchedd, Contractau a Chyswllt Cymunedol	£517,000
• Rheoli Gweithredol a Chymorth	£191,000

59. Mae AHC yn mynnu eu bod wedi defnyddio dull seiliedig ar asesiad risg lle mae lefelau staffio yn y cwestiwn ac y byddai gostyngiadau staff pellach yn golygu na fyddent yn gallu darparu lefel statudol o wasanaeth. O ystyried natur arbenigol gwaith AHC, a diffyg sefydliadau tebyg (gweler Adran 8), mae'n anodd o fewn cwmpas yr adolygiad hwn naill ai herio neu gadarnhau'r haerid hwnnw.

Safleoedd, Cyflenwadau a Gwasanaethau Cymorth: £1,284,000

60. Mae'r elfen hon o'r gyllideb gorbenion yn cynnwys:
- Costau safleoedd, sy'n cynrychioli costau (Rhent, Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, cyfleustodau) meddiannu safleoedd ac asedau AHC, sef Tŷ'r Frenhines Alexandra (TFA), maes parcio Stryd Havannah, CGDBC, Rheoli'r Morglawdd a'r Adeilad Amgylcheddol. Mae personél o Dîm Parciau a Hamdden y Cyngor yn meddiannu lle yn TFA ac o ganlyniad mae tua 50% o gost meddiannu TFA yn cael ei ailgodi ar y Cyngor, tâl a ailgodir o oddeutu £50k. Mae'r gyllideb yn cynnwys lwfans o £150k ar gyfer atgyweiriadau a chynnal a chadw;
 - Costau trafndiaeth, sy'n cynrychioli cost rhedeg cerbydau tir/craeniau AHC ac yswirio'r rhain;
 - Cyflenwadau a Gwasanaethau, gan gynnwys polisïau yswiriant, offer swyddfa, dodrefn a deunyddiau, cyfathrebu a chyfrifiadura a hysbysebu;
 - Gwasanaethau Cymorth, sy'n cynnwys darparu gwasanaethau cymorth a gyflenwir gan y Cyngor i AHC, yn benodol gwasanaethau ariannol, ystadau strategol, TGCh, adnoddau dynol a gwasanaethau technegol (ar gyfer rheoli meysydd parcio). Fe ostyngodd gwariant ar wasanaethau cymorth yn 2018/19 yn dilyn rhoi terfyn ar y cymhorthdal o £100k a oedd yn cael ei dalu i'r Ganolfan Gwybodaeth i Dwristiaid. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfraniad o

£100,000 i weithredu Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd, cyfleuster rafftio dŵr gwyn a thonnau dan do o safon Olympaidd, sydd wedi'i leoli yn ardal y bae.

61. Nid yw'r costau rhent sy'n gysylltiedig â meddiannu TFA gan AHC wedi cael eu meincnodi; fodd bynnag, ceir manteision gweithredol amlwg sy'n gysylltiedig â gweithredu o TFA.
62. Ceir dadansoddiad llawn o gyllideb gorbenion AHC yn Atodiad B.

Marchnata a Chyfathrebu: £50,000

63. Mae'r gyllideb hon wedi cael ei lleihau yn dilyn cael gwared ar y gyllideb digwyddiadau yn 2019-20, a'r gofyniad o ganlyniad bod digwyddiadau bellach yn eu hariannu eu hunain.

Dŵr Daear: £110,000

64. Mae'r costau hyn yn ymwneud â'r gweithgareddau sy'n unol â'r Cynllun Diogelu Eiddo. Gan bod rhwymedigaethau AHC dan y cynllun yn dod i ben ym mis Tachwedd 2019, dyma'r flwyddyn olaf pan fydd costau o'r fath yn cael eu hysgwyddo – yn amodol dim ond ar weithrediad parhaus a gwaith cynnal a chadw parhaus i bwmp dŵr daear Merches Gardens, yn dilyn y canfyddiad mewn adroddiad annibynnol, am gost dybiedig o £5,000 y flwyddyn.

Pysgod: £135,000

65. Caiff y costau hyn eu hysgwyddo yn unol â chytundeb rhwng y Cyngor a CNC yn unol â Rhaglen Lliniaru Pysgodfeydd Morglawdd Bae Caerdydd, sy'n golygu bod AHC yn cyfrannu tuag at gostau CNC a ysgwyddir ar ysgolion pysgod, gwella cynefinoedd, stocio, rheoli a monitro pysgod. Mae'r cytundeb, a ddechreuodd yn 2008/9 yn dod i ben ar ddiwedd 2019/20, felly dyma'r flwyddyn olaf y bydd costau o'r fath yn cael eu hysgwyddo.

Rheoli Cyfleusterau: £305,000

66. Mae'r elfen gost fwyaf sylweddol yn ymwneud â'r "mân waith", gwaith adnewyddu a chynnal a chadw rheolaidd ac ad hoc yn Roald Dahl Plass, Graving Docks a Maes Parcio Stryd Havannah, a wneir gan y Cyngor. Fe'n hysbysir gan AHC bod y gyllideb hon yn canolbwyntio'n fwyfwy ar waith sy'n ofynnol am resymau iechyd a diogelwch yn hytrach na gwaith o natur esthetig.

Rheoli Plâu: £47,000

67. Darperir y gwasanaeth hwn dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Cyngor ac mae'n golygu patrolio'r Bae'n rheolaidd a gwirio manau allweddol ledled lleoliadau AHC am weithgarwch cnofilod ac ymdrin â chnofilod pan fo angen.

Cynnal a Chadw'r Morglawdd: £440,000

68. Caiff gwaith cynnal a chadw wedi'i drefnu a heb ei drefnu i'r Morglawdd ei wneud i raddau helaeth gan y tîm mewnol yn unol â'u cyfundrefn cynllunio ac arolygu, gyda gwaith yn cael ei flaenoriaethu yn ôl sgôr CAG. Ar y cyfan dim ond os oes angen codi eitemau trymion neu os oes angen plymwyr y mae gofyn defnyddio contractwyr arbenigol. Tua £350,000 yw'r gyllideb ar gyfer darnau a deunyddiau sy'n ofynnol i gynnal a chadw'r morglawdd, lociau, pontydd, llifddorau ac ysgol bysgod. Hefyd, ysgwyddir tuag £20,000 i gynnal a chadw a gwella'r cyfleusterau cyhoeddus, gan gynnwys y strwythur hwyliâu.

69. Hefyd, ysgwyddir tua £70,000 am gyflenwi pŵer i reolydd y morglawdd ac i weithredu'r ysgol bysgod. Mae gofyn i'r ysgol bysgod weithredu ar sail 24/7 ac mae'n ofynnol bod dau bwmp 200kW yn rhedeg yn barhaus ar gyfer hynny. O ganlyniad, fe'n hysbysir gan AHC mai hwn yw'r defnyddiwr pŵer unigol mwyaf yn y Cyngor. Mae AHC yn monitro defnydd o'r ysgol bysgod, ac felly mae ganddo ddata sylweddol ynghylch yr amseroedd defnyddio a'r niferoedd – ac ar hyn o bryd mae'n cofnodi ei bod yn cael ei defnyddio gan 70 eog y flwyddyn yn unig.

Carthu: £750,000

70. Mae carthu'r harbwr mewnol a'r bae yn digwydd yn nodweddiadol ddwywaith y flwyddyn. Caiff y gwasanaeth hwn ei gaffael gan AHC trwy broses dendro gystadleuol sy'n arwain at ddyfarnu contract pum mlynedd gyda'r contract cyfredol, a ddyfarnwyd i Boskalis Westminster Ltd, yn dod i ben ym mis Mawrth 2022. £600,000 y flwyddyn yw'r gost y cyllidebir ar ei chyfer i wneud gwaith carthu o'r fath, gyda thua 155,000 o dunelli o garthu'n digwydd bob blwyddyn. Er na wnaeth ein hadolygiad ni o'r ddogfennaeth gaffael a chytundebol godi unrhyw bryderon, rydym yn nodi mai dim ond un ymateb a gyflwynwyd mewn ymateb i wahoddiad AHC i dendro ac ar ben hynny mae'r gwasanaeth wedi bod yn cael ei ddarparu gan yr un contractwr am nifer o flynyddoedd. Fe'n hysbysir mai'r rheswm dros hyn yw'r cyfyngiadau ar fynediad i'r harbwr mewnol a'r bae, sy'n golygu mai ychydig iawn o longau carthu sy'n gallu darparu'r gwasanaeth carthu ar gyfer AHC. O ystyried hyn, mae felly'n anodd cadarnhau a geir gwerth am arian.
71. Mewn trafodaethau gydag AHC, rydym yn deall bod ei gostau carthu blynyddol ar gyfer yr harbwr allanol yn gyfanswm o £550,000, am waredu 650,000 o dunelli – er nad ydym wedi ceisio cadarnhau hyn. Er bod ABP yn elwa o wasanaethau cwmni grŵp mewnol ac nad yw'n ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau ffisegol ag AHC, gan olygu bod modd defnyddio llongau mwy, yn seiliedig ar yr wybodaeth hon, mae'r gost carthu am bob tunnell i AHC bedair gwaith yn uwch na'r gost a ysgwyddir gan ABP.
72. Yn unol â chytundeb dyddiedig 1992, gall ABP hawlio oddi wrth AHC gostau ychwanegol carthu sy'n deillio o'r siltio cynyddol i Sianel Wrach, o ganlyniad i adeiladu'r morglawdd. Er mwyn gwneud hawliad blynyddol, rhaid i'r cais cyntaf o'r fath gael ei wneud ddim hwyrach nag 20 mlynedd yn dilyn cwblhau'r morglawdd, fel a ddangosir gan gofnodion siltio. Mae ABP wedi cyflwyno'u cais cyntaf o'r fath yn ddiweddar, a hwnnw'n cael ei ategu gan gofnodion siltio dros nifer o flynyddoedd. Rydym wedi dod i'r casgliad o'n hadolygiad o'r cytundeb a'r dystiolaeth ategol a ddarparwyd gan ABP, bod sail i'w hawliad, ond oherwydd ei natur arbenigol nid ydym yn gallu herio'r haerriad bod y siltio cynyddol yn deillio o greu'r morglawdd. Felly mae maint cyfraniad AHC tuag at gostau carthu ABP yn y dyfodol yn fater i'w negodi, ac yn hyn o beth mae AHC wedi llwyddo i ostwng hawliad ABP, o ffigwr gwreiddiol o 50% o'r costau gwirioneddol (a oedd yn gyfanswm o tua £300,000), i swm sefydlog o £150,000 y flwyddyn, gyda'r cyfraniad hwnnw'n cael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Mae'r swm hwn wedi cael ei gytuno bellach a darperir ar ei gyfer yn y gyllideb costau sefydlog. Ymddengys ei fod yn gyfaddawd priodol.

Yr Amgylchedd: £366,000

73. Caiff y gweithgareddau penodol dan y pennawd hwn eu nodi'n fanwl yn y gyllideb costau sefydlog. Caiff nifer o'r gwasanaethau hyn, megis casglu malurion, rheoli planhigion

goresgynnol, gwaredu gwastraff a gasglwyd, a chynnal a chadw gwlypdiroedd Bae Caerdydd, eu darparu dan Gytundebau Lefel Gwasanaeth gan y Cyngor (fel a nodir ymhellach isod).

74. Mae gweithgareddau eraill, megis monitro siltio, yn cael eu rhoi ar gontract allanol a'u caffael yn gystadleuol. Mae cost awyru yn cynrychioli'r costau pŵer a bydd yn ddibynnol ar yr angen mewn unrhyw flwyddyn benodol, yn unol â'r DPA y mae'n ofynnol i AHC ei fodloni.
75. Mae ansawdd dŵr yn cael ei fonitro ar gyfer bacteria, pH a thymheredd, gyda samplau'n cael eu casglu, eu hanfon i labordai i gael eu profi a chanlyniadau'n cael eu profi. Mae AHC yn y broses o newid ei fodel pH rhagfynegol.

Incwm: (£983,000)

76. Gellir dadansoddi incwm AHC fel a ganlyn:
 - Ffioedd Parcio Ceir: £542,000. Mae'r ffioedd wedi'u cynyddu a'u cysoni â chyfraddau ehangach y Cyngor;
 - Tollau Porthladd: £245,330. O hyn, mae tua £235,000 yn deillio o daliadau a gymhwyswyd i ddefnyddwyr am angori a mordwyo yn yr harbwr. Caiff y gyfradd a gymhwysir i gyfran o'r tollau ei disgowntio 60%, yn unol â chytundeb a fydd yn dod i ben ar ddiwedd 2021/22. Er bod rhanddeiliaid lleol wedi cyflwyno her i'r Adran Drafnidiaeth ynglŷn â chyfraddau tollau harbwr, rydym ni'n amcangyfrif y bydd dileu'r disgownt a chymhwyso cyfraddau llawn (o £40 y flwyddyn am bob metr yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu) yn arwain at gynnydd o tua £150,000 y flwyddyn mewn tollau harbwr o 2022/23. Mae gweddill yr incwm, tua £10,000, yn deillio o daliadau a godir ar y gweithredwyr masnachol yn y bae gan gynnwys ardoll o 10c a godir am bob teithiwr.
 - Liff Môr: £20,000. Newidiadau i Farina Caerdydd.
 - Consesiwn Caffi: £10,000. Wedi'i brydlesu gan RSPB tua 1 flwyddyn yn ôl.
 - Incwm CGDBC: £83,000
 - Incwm Amrywiol: £19,700
77. Yn ystod yr adolygiad fe gyfarfuom â swyddog AHC sy'n gyfrifol am weithgareddau masnacheiddio. Mae AHC wedi cynnal dadansoddiad SWOT ac mae'n ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddo a'r cyfyngiadau y mae'n gweithredu oddi tanynt – er enghraifft mynediad. Fe wnaethom hefyd adolygu adroddiad a baratowyd gan Colliers "Cyfleoedd Hamdden Masnachol ym Morglawdd Bae Caerdydd" Rhagfyr 2016.
78. Mae AHC wedi ystyried nifer o gyfleoedd masnachol ac wedi adnabod nifer fach o weithgareddau penodol sy'n ennill ffioedd megis pedolos, mini-borthladdoedd, man gwerthu cyflenwadau cŵn neu barc gweithgareddau antur y gellir eu cyflawni ac yr ystyrir eu bod yn briodol ar gyfer amgylchedd y bae.
79. Nid ydym o'r farn bod cyfleoedd masnachol sylweddol sydd heb gael eu hadnabod neu eu canlyn. Mae Local Partnerships wedi bod yn trafod masnacheiddio (yr hyn y mae'n ei olygu i bob cyngor, yr hyn y maent yn ei ystyried, yr hyn y maent wedi'i wneud, yr hyn y gallent ei wneud) gyda nifer o awdurdodau yng Nghymru, ac rydym yn rhoi cymorth i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddatblygu digwyddiad masnacheiddio a rhaglen o gymorth parhaus. Mae'r holl weithgareddau hyn wedi deillio o ymgais clir i fod yn fwy masnachol a byddem yn annog AHC a'r Cyngor i ymgysylltu â'r mentrau hyn.

Gwasanaethau a Ddarperir gan Gyngor Caerdydd ar gyfer AHC

80. Wedi'u cynnwys o fewn ystod o benawdau'r gyllideb costau sefydlog, mae costau'r gwasanaethau y mae AHC yn eu cael gan y Cyngor, y mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn bodoli rhwng y ddau barti ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt. Mae rhestr lawn o'r gwasanaethau hyn i'w chael isod, ac mae cyfanswm y gyllideb ar eu cyfer yn £769,560.

Adran a Gwasanaeth	Cyllideb 2019/20
Gwasanaethau Ariannol – Cyfrifyddiaeth	£17,860
Gwasanaethau Ariannol – Yswiriant	£15,240
Gwasanaethau Ariannol – Adennill Incwm	£530
Gwasanaethau Ariannol – Y Gyflogres	£1,110
Gwasanaethau Ariannol – Taliadau	£2,150
Gwasanaethau Ariannol – Caffael	£7,070
Ystadau Strategol	£35,380
TGCh – Cymorth SAP	£19,000
TGCh – Gwasanaethau TGCh	£28,000
Gwasanaethau Personél	£24,740
Gwasanaethau Cyfreithiol	£7,820
Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau Ôl-Gorfforaethol	£1,210
Iechyd a Diogelwch	£8,200
Cyfathrebu	£28,470
Caerdydd Ddwyeithog	£2,280
Uned Reoli Frys – Cymorth	£20,000
Adain Draffig – Rheoli Meysydd Parcio	£42,000
Gwasanaeth Cwnsela Cyflogeion	£500
Gweinyddu ar y Cyd	£10,000
Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog – Defnyddio Cerbydau	£65,000
Parcmyn – Cytundeb Lefel Gwasanaeth Ailgylchu Pren	£11,000
Parcmyn – Cytundeb Lefel Gwasanaeth Gwarchodfa Gwlypdiroedd	£16,000
Rheoli Parciau – Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Tiroedd a Rheoli Chwyn	£65,000
Rheoli Plâu	£38,000
Draenio (Priffyrdd) – Cytundeb Lefel Gwasanaeth Dŵr Daear	£62,000
Gwasanaethau Glanhau - Cytundeb Lefel Gwasanaeth Casglu Sbwriel	£133,000
Gwasanaethau Cymdogaeth - Cytundeb Lefel Gwasanaeth Casglu Gwastraff	£60,000
Rheoli Gwastraff (Gwasanaethau Masnachol) - Cytundeb Lefel Gwasanaeth Gwaredu Gwastraff	£48,000
CYFANSWM	£769,560

81. Rydym wedi adolygu sampl o'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth sy'n ymwneud â rhai o'r gwasanaethau uchod, sy'n cynnwys manyleb gwasanaeth a rhestr brisiau. Fe'n hysbysir bod y cyfraddau a ysgwyddir gan AHC yr un fath â'r rhai sy'n berthnasol i adrannau'r Cyngor. Mae cyfanswm y costau a ysgwyddir yn nodweddiadol ar sail nifer/trafodion/amlder, ac rydym yn ymwybodol bod hyblygrwydd o'r fath wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol i leihau costau rhai Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Mae personél AHC yn ein hysbysu eu bod yn fodlon ar y cyfan ar ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gael gan y Cyngor.

Arbedion a Nodwyd

82. Ar sail yr adolygiad a gynhaliwyd, gellir amcangyfrif arbedion o tua £419,000 y flwyddyn gyda chryn dipyn o hyder:
- £134,000 y flwyddyn o 2020/21 yn dilyn dirwyn y Cynllun Diogelu Dŵr Daear i ben, gan gynnwys arbedion staff;
 - £135,000 y flwyddyn o 2020/21 wedi i'r contract gyda CNC ddod i ben yn unol â Rhaglen Lliniaru Pysgodfeydd Morglawdd Bae Caerdydd;
 - £150,000 y flwyddyn o 2022/3, o gynnydd mewn Tollau Harbwr, gan dybio nad yw'r her gyfredol yn cael ei chadarnhau, a bod y taliadau llawn heb ddisgownt yn cael eu cymhwyso.
83. Hefyd, gyda bron i 20 mlynedd o weithrediad llwyddiannus y morglawdd i'n goleuo, fe argymhellom ni y dylid ymchwilio i awgrymiadau AHC mewn perthynas â'r canlynol. Byddai angen treial wedi'i reoli'n dda ar gyfer pob un ohonynt er mwyn sicrhau nad oes effaith niweidiol ar yr amgylchedd na lles pysgod:
- Y potensial i weithredu'r ysgol bysgod ar sail fwy targededig yn gyson â'i defnydd, a allai ryddhau arbedion o tua £10,000 y flwyddyn, gan ddibynnu ar yr oriau gweithredu gwirioneddol;
 - Llacio DPA1 "Canran y darlleniadau ocsigen tawdd ym Mae Caerdydd sy'n cyrraedd lefel o 5 miligram y litr o ocsigen tawdd neu fwy". Nid yw'n bosibl meintioli maint arbedion o'r fathg nes bod trafodaethau wedi cael eu cynnal i benderfynu pa DPA diwygiedig, os o gwbl, fyddai'n dderbyniol i CNC.
84. Bydd pwysau o ran costau, er enghraifft codiadau cyflog a chynnydd yng nghost cyflenwadau a gwasanaethau penodol, a fydd yn gwrthbwysu rhai o'r arbedion hyn.

Dadansoddiad o Wariant AHC yn ôl Swyddogaeth

85. Ceir gwahaniaethau yn y ffordd y mae gwybodaeth ariannol a chyllidebol AHC yn cael ei chyflwyno a'i dadansoddi at ddibenion monitro cyllideb AHC ei hun o'i gymharu â phan fo'r hawliadau grant chwarterol yn cael eu chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yn ystod yr adolygiad, fe wnaethom drafod gydag AHC beth yw manteision dadgyfuno ei gyllideb staff a gorbenion (LA904) ar draws pob un o'i swyddogaethau, ac mae'r gwaith hwn bellach wedi'i wneud. Er mwyn symleiddio, gwella tryloywder a darparu un gyllideb gyffredin at ddibenion AHC a Llywodraeth Cymru rydym yn argymhell bod hyn yn cael ei fireinio ymhellach, gyda'r amcan o ddadgyfuno cyllideb AHC yn ei chyfanrwydd i gyfateb â'i swyddogaethau, fel bod cost net cyflawni pob un yn dod yn amlwg.

Aiddosbarthu Eitemau yn y Gyllideb Costau Sefydlog fel rhai Cyfalaf

86. Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o Gyllideb Costau Sefydlog 2019/20, o fewn y cyllidebau Cynnal a Chadw Cyfleusterau a Chynnal a Chadw'r Morglawdd, mae tua £500,000 yn ymwneud â chynnal a chadw ac adnewyddu'r morglawdd ac ardal y bae y gellid ei wneud yn wariant cyfalaf.

Argymhellion ar gyfer Trefniadau Ariannu Mwy Hirdymor ac Amgen

87. Er bod setliadau ariannu tair blynedd wedi cael eu hatal yn amodol ar gwblhau'r adolygiad hwn, rydym yn argymhell, er mwyn hwyluso'r broses o gynllunio gwasanaethau'n effeithiol,

bod setliadau ariannu tair blynedd yn cael eu hailgyflwyno, gyda'r amseriad yn cyfateb â chylch cyllidebol Llywodraeth Cymru.

88. O safbwynt Llywodraeth Cymru, mae cyfrifoldeb cyllidebol yn gorwedd gyda'r Isadran Adfywio a Chartrefi a Lleoedd. Er bod adeiladu'r morglawdd ac ailddatblygu ardal y Bae wedi dechrau fel prosiect adfywio sylweddol, ar ôl bod yn weithredol am 20 mlynedd, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei chyfrifoldeb cyllidebol mewnol mewn perthynas ag AHC yn briodol. Rydym ni o'r farn y gallai trosglwyddo cyfrifoldeb cyllidebol i'r Isadran Llywodraeth Leol fod yn fwy priodol yn awr.
89. Mae'r rhwymedigaeth i ariannu gweithgareddau AHC yn unol â'r Ddeddf a'r Cytundeb Adran 165 yn gorwedd gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r arbenigedd i gyflawni gweithgareddau AHC yn gorwedd o fewn AHC a'r Cyngor. Mae gweithgareddau AHC yn gwneud cyfraniadau pwysig tuag at amcanion strategol y Cyngor (fel a nodir yn Adran 7) o fewn ardal proffil uchel ar gyfer y brifddinas. Mae AHC, ar ôl gwneud arbedion sylweddol, yn dal i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da, mae'n uchel ei barch ymhlith ei gleientiaid a'i randdeiliaid ac mae wedi bod yn gweithredu heb ddigwyddiad am 20 mlynedd. Yng ngoleuni'r uchod, rydym yn argymhell bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ariannu a chyflawni i'r Cyngor trwy drosglwyddiad arian heb ei neilltuo, i weld a ellir dod o hyd i ddatrysiad sy'n dderbyniol i bawb – gan y byddai hyn o fwy o gymorth i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Efallai y bydd angen i'r driniaeth a roddir i adnewyddu a chynnal a chadw asedau eistedd y tu allan i unrhyw drefniadau o'r fath, o ystyried eu maint, oni bai y gellir cytuno ar drefniant cronfa ad-dalu.

7 ADOLYGIAD O GYFRANIADAU STRATEGOL AHC

90. Er mwyn asesu cyfraniad ehangach AHC, fe wnaethom ystyried yr amcanion strategol a nodir yn:
- Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru “Symud Cymru Ymlaen 2016-21”¹;
 - “Cynllun Corfforaethol 2019-22” y Cyngor; ac
 - “Uchelgais Prifddinas” y Cyngor.²

Symud Cymru Ymlaen 2016-21

91. Mae Symud Cymru Ymlaen yn nodi pedair blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru:
- ffyniannus a diogel;
 - iach ac egnïol;
 - uchelgais a dysgu;
 - unedig a chysylltiedig.
92. Mae’r Cynllun Busnes yn cysylltu camau gweithredu AHC â’r blaenoriaethau yn Symud Cymru Ymlaen, ac mae’r adroddiadau blynyddol a chwarterol y mae AHC yn eu llunio ar gyfer Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y cynnydd a wnaed ers yr adroddiad diwethaf.
93. Rydym wedi dethol y nodau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn Symud Cymru Ymlaen y mae AHC yn cyfrannu atynt:
- “Dros y blynyddoedd diwethaf mae proffil Cymru wedi codi ar draws y byd fel lle ardderchog i fuddsoddi, cynnal busnes, ymweld, astudio a byw.”
 - Bydd Llywodraeth Cymru yn “cefnogi datblygiad ein busnesau llwyddiannus yn y Diwydiannau Creadigol a Thwristiaeth, ac adeiladu ar ein henw da am gynnal digwyddiadau mawr ym maes diwylliant, chwaraeon, busnes a digwyddiadau eraill”.
 - “Mae iechyd da wrth wraidd pob uchelgais sydd gennym ar gyfer Cymru. Rydym wedi ymrwymo i helpu i wella iechyd a llesiant pawb. Mae byw bywydau iach yn ein galluogi i gyflawni ein potensial, cyflawni ein huchelgais addysgol a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Cymru.”
 - O dan “Asedau Cymunedol”, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i “weithio gyda chymunedau i ddiogelu cyfleusterau lleol sy’n dod â phobl ynghyd, megis tafarndai, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, canolfannau celfyddydol a chanolfannau hamdden”.

¹ https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy_0.pdf

² <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/uchelgais-prifddinas/Documents/Capital%20Ambition%20WELSH%20low%20res.pdf>

Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd

94. Mae'r Cynllun Busnes yn crynhoi sut y mae camau gweithredu AHC yn alinio â saith nod y Cynllun Corfforaethol:
- Mae pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel – bydd AHC yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau brys lleol i sicrhau bod cynlluniau at argyfwng a mesurau diogelwch yn eu lle.
 - Mae gan Gaerdydd economi ffyniannus – gan sicrhau wrth i'r ddinas dyfu ei bod yn dwyn budd i'r rhanbarth ehangach, a bydd AHC a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i arwain y ffordd i Gymru allan o'r dirywiad economaidd.
 - Mae pobl yng Nghaerdydd yn cyflawni eu llawn botensial – bydd AHC a Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i helpu i ddarparu cyfleoedd ar gyfer pawb yn y ddinas trwy addysg, profiad gwaith a darpariaeth gwirfoddoli.
 - Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae – byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu rhaglen neilltuol o weithgareddau a chyfleoedd i bobl eu mwynhau.
 - Mae Caerdydd yn amgylchedd glân a chynaliadwy – bydd AHC yn rheoli'r amgylchedd yn y dŵr ac ar y tir sydd o fewn ei reolaeth i sicrhau bod safonau amgylcheddol uchel yn cael eu cynnal.
 - Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach – bydd AHC yn amcanu at hyrwyddo gweithgareddau sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant y boblogaeth leol.
 - Mae Caerdydd yn deg, yn gyfiawn ac yn gynhwysol – bydd AHC yn gweithio i ddarparu cyfleoedd a mynediad i bawb.
95. Ar ben hynny, mae'r Cynllun Busnes yn nodi sut y mae pob cam gweithredu'n cyfrannu at yr uchod.
96. Yn benodol, mewn perthynas ag ardal y Bae, mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi bod y Cyngor yn ymrwymedig i ehangu ei seilwaith economi ymwelwyr, gan ganolbwyntio ar Fae Caerdydd, i roi hwb cychwynnol i'w gyfnod datblygu nesaf. Ei nod yw datblygu gweledigaeth ac uwchgynllun newydd ar gyfer Bae Caerdydd erbyn 2020 gan gynnwys bwrw ymlaen â'r cyfnod datblygu nesaf ar gyfer y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol erbyn 2019.

Uchelgais Prifddinas Cyngor Caerdydd

97. Mae'r ddogfen Uchelgais Prifddinas yn nodi ymrwymïadau'r weinyddiaeth newydd ar gyfer Caerdydd. Er nad yw cynllun busnes AHC yn croesgyfeirio at yr ymrwymïadau a nodir yn y ddogfen hon, rydym wedi dethol y canlynol sydd fwyaf perthnasol i gyfraniad AHC yn ein tyb ni:
- Yn "Adeiladu ar ein statws fel prifddinas" dywed y Cyngor fod "rhaid i ni barhau i ddenu digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr, twristiaid, buddsoddiad a myfyrwyr i Gymru a chadarnhau lle Caerdydd fel prifddinas flaenllaw mewn economi fyd-eang ôl-Brexit".
 - Yn "Gwneud y mwyaf o'n diwylliant", dywed y Cyngor fod "diwylliant unigryw Caerdydd yn fantais gystadleuol ac mae ei dinasyddion yn cydnabod bod ei seilwaith ddiwylliannol a hamdden ymysg y gorau yn Ewrop. Byddwn yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar yr asedau hyn, gan ddenu digwyddiadau mawr i Gymru tra'n cefnogi ein talentau gorau i'w helpu i ffynnu ar lwyfan byd-eang".
 - Mae'r Cyngor yn datgan ei nod i "bennu gweledigaeth newydd ar gyfer Bae Caerdydd fel cychfan hamdden trwy sicrhau atyniad newydd ar gyfer ymwelwyr, gan fynd ati o bosibl i

greu cyfleuster “tebyg i draeth” ac ailfywiogi’r strategaeth ar gyfer y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol”.

- Dywed y Cyngor y bydd yn “cyflwyno cynlluniau cyffrous ar gyfer dyfodol Bae Caerdydd...gwella’r profiad ymwelwyr yn sylweddol ym Mae Caerdydd, Pentir Alexandra a Chei’r Fôr-Forwyn, gan adeiladu ar dreftadaeth ddiwydiannol unigryw Caerdydd”.

Casgliad

98. Mae AHC yn gwneud cyfraniad eang tuag at gyflawni amcanion strategol Llywodraeth Cymru a’r Cyngor. Fel lleoliad uchel ei broffil yn y brifddinas, Bae Caerdydd a rôl AHC yn y rhain, mae’n gwneud cyfraniad mwy a hwnnw’n gyfraniad mwy uniongyrchol tuag at uchelgeisiau’r Cyngor, er enghraifft trwy gynnal digwyddiadau arwyddocaol megis Ras Fôr Volvo neu’r wyl bwyd a diod ryngwladol.
99. Gyda gostyngiadau yn y gyllideb Digwyddiadau yn y dyfodol, fe’n hysbysir y bydd angen i ddigwyddiadau o’r fath eu hariannu eu hunain yn awr, a allai leihau gallu gweithgareddau AHC i gyfrannu at uchelgeisiau o’r fath.

8 SEFYDLIADAU TEBYG POSIBL

100 Roedd ein briff yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud ychydig bach o ymchwil ddesg i ganfod a oes sefydliad sylweddol debyg i AHC yn bodoli – er mwyn asesu a yw'n ddichonadwy bod y partion yn cynnal ymarfer meincnodi.

101 Rydym wedi ystyried y sefydliadau canlynol:

- Associated British Ports;
- Harbwr Bryste, gan ein bod yn deall bod personél AHC wedi treulio peth amser gyda'r tîm sy'n gweithredu Harbwr Bryste er mwyn deall sut y maent yn gweithredu eu cyfleusterau.
- Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, gan y gallai fod yn ddefnyddiol ymgynghori â'r sefydliad hwn wrth ystyried mentrau masnachol a dulliau posibl o greu incwm.
- Jersey;
- Aberdaugleddau;
- Peel Ports;
- Harbwr Portsmouth;
- Sunderland, gan bod hwn yn borthladd masnachol a berchnogir gan Gyngor Dinas Sunderland;
- Atalfa Afon Tafwys; gan y gallai hon fod yn berthnasol wrth ystyried gweithrediadau'r Morglawdd a'r llifddorau.

102. Nid ydym wedi gallu adnabod sefydliad sydd â chyfrifoldebau sy'n gymesur â rhai AHC. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y darparwyd ar gyfer y Morglawdd dan Ddeddf Seneddol, ac y gallai'r cyfrifoldebau statudol sy'n codi o'r Ddeddf a'r cyfundrefnau monitro amgylcheddol a sefydlwyd gan CNC fel rheoleiddiwr osod AHC dan reolaeth reoleiddiol fwy trylwyr na sefydliadau tebyg.

103. Rydym yn nodi bod yr adolygiad yn 2006 gan Hornagold a Hills wedi ceisio cymharu gweithrediadau AHC â Langanside Development Corporation yng Ngogledd Iwerddon a Chyngor Dinas Bryste fel rhan o ymarfer meincnodi. Daeth Hornagold a Hills i'r casgliad bod y gwahaniaeth sylweddol rhwng gweithrediadau'r sefydliadau hyn yn ei gwneud yn anodd iawn dwyn cymhariaeth uniongyrchol rhwng eu gweithgareddau – bod y newidynnau bron yn amhosibl i'w cysoni heb beth wmbredd o ymchwil a dadansoddi pellach.

Casgliad

104. Yn seiliedig ar yr ymchwil ddesg gyfyngedig a wnaed, nid ydym wedi gallu dod o hyd i sefydliad sylweddol debyg i AHC y gallai'r partion ei ddefnyddio at ddibenion meincnodi.

9 TREFNIADAU LLYWODRAETHU AHC

Y Trefniadau Llywodraethu Presennol

105. Yn unol â thelerau Atodlen 9 o'r Cytundeb Adran 165, mae AHC yn paratoi Cynllun Busnes Blynyddol a phedwar Adroddiad Monitro Perfformiad a drafodir ac a adolygir yn y Bwrdd Rhaglen.
106. Mae amodau gorchwyl y Bwrdd Rhaglen yn nodi nad bwrdd sy'n gwneud penderfyniadau ydyw ond ei fod wedi cael ei sefydlu i sicrhau dull integredig o fonitro, llywodraethu a llunio polisiau mewn perthynas ag AHC a briffio Gweinidogion yn rheolaidd ar gynnydd a chynghori ynghylch blaenoriaeth camau gweithredu arfaethedig neu feysydd lle mae buddiannau mewn cystadleuaeth â'i gilydd.
107. Mae'r Bwrdd Rhaglen yn gyfrifol am sicrhau:
- bod perfformiad AHC a threfniadau ariannu ar gyfer rheoli Bae Caerdydd a'r Morglawdd yn effeithiol ac yn effeithlon;
 - bod AHC yn cyflawni ei swyddogaethau a'i ddyletswyddau mewn ffordd sy'n gyson â lleihau costau tymor hwy i'r eithaf a rhoi gwerth am arian;
 - bod yr amodau sy'n gysylltiedig â thalu grant gan Lywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r gofynion yn y Cytundeb Adran 165 a'r Gweithredoedd Amrywio;
 - bod trefniadau yn eu lle i fynd ati'n effeithiol i fonitro defnydd AHC o'r cyllidebau cymeradwy a'i gydymffurfiaeth â'r telerau ac amodau yn y Cytundeb;
 - bod AHC yn cyflwyno Cynllun Busnes sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol i ategu ei gynlluniau ariannol, targedau perfformiad ac allbynnau ac i werthuso'r Adroddiad Blynyddol mewn perthynas â chyflawniadau AHC am y flwyddyn ariannol flaenorol;
 - bod AHC yn parhau i adolygu ei wasanaethau a'i weithgareddau dan y Cytundeb i sicrhau ei fod yn cyflawni ac yn amcanu at gael gwerth gwell am arian; a
 - bod AHC yn cyflawni ei gyfrifoldebau amgylcheddol mewn perthynas â diogelu ansawdd dŵr; atal llifogydd a monitro pysgod.
108. Er bod y Cytundeb Adran 165 yn nodi y dylai "*unrhyw adroddiadau ar berfformiad gynnwys lle y bo'n briodol esboniadau ynglŷn â pham nad yw unrhyw dargedau a/neu gerrig milltir... wedi cael eu cyrraedd, neu lle nad yw'r allbynnau a'r deilliannau y cytunwyd arnynt wedi cael, neu lle na ddisgwyllir iddynt gael, eu cyflawni*", ac y "*dylid darparu manylion goblygiadau digwyddiadau o'r fath a'r effaith ar wariant hefyd*", nid yw hyn wedi'i gynnwys ar y cyfan yn y sampl o adroddiadau yr ydym ni wedi'i hadolygu. Deallwn dros amser fod swm yr wybodaeth esboniadol a gynhwysir wedi lleihau'n raddol, gydag esboniadau'n cael eu darparu ar lafar.
109. Rhwng y cyfarfodydd chwarterol, cynhelir trafodaethau ad-hoc rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a phersonél AHC, pan fo/os yw materion penodol yn codi.

110. O fewn y Cyngor, mae AHC wedi'i gynnwys yn y portffolio Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant a ddelir gan y Cynghorydd Peter Bradbury ar hyn o bryd. Mae Rheolwr Gweithredol AHC yn cwrdd â'r Cynghorydd Bradbury bob pythefnos, a chaiff adroddiadau eu llunio drwy eithriad.
111. Mae Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn, dan gadeiryddiaeth Cyngor Bro Morgannwg, ac mae'r mynychwyr yn cynnwys rhanddeiliaid â buddiant yn y Bae, e.e. CNC, clybiau pleserlongau lleol ac ati. Mae'r Cynghorydd Bradbury yn mynychu'r cyfarfodydd hyn hefyd.

Casgliad

112. Mae llywodraethu'n "llai manwl" ac yn weithredol i raddau helaeth o ran ei natur, ond mae'n gweithredu ar y cyfan yn unol â'r Cytundeb Adran 165. Mae hyn mwy na thebyg yn adlewyrchu'r ffaith nad oes unrhyw faterion sylweddol wedi codi hyd yma.

Argymhelliad

113. Rydym yn argymhell bod trefniadau llywodraethu AHC yn cael eu cyfoethogi trwy bresenoldeb gan swyddogion ar rengoedd uwch yn Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn flynyddol, a hynny felly'n hwyluso trafodaethau mwy strategol gan gynnwys cymeradwyo'r cynllun busnes blynyddol yn ffurfiol. Rydym yn argymhell bod cofrestr risg ar gyfer AHC yn cael ei pharatoi, gyda risgiau'n cael eu hadnabod, eu dyrannu i'r unigolyn priodol a mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith a'u monitro.

Cynllun Parhad Busnes

114. Un agwedd ar lywodraethu da yw bod â Chynllun Parhad Busnes ("CPB") cyfoes, sy'n hygyrch ac yn cael cyhoeddusrwydd da yn y sefydliad.
115. Mae CPB yn ei le ar gyfer holl gyfleusterau AHC gan gynnwys y Morglawdd sy'n gyfredol ac yn nodi'n glir beth yw'r trefniadau wrth gefn ar gyfer ystod o senarios.
116. Ein barn ni yw bod y CPB yn gynhwysfawr, gan nodi:
- y digwyddiadau a allai fod yn sbardun i roi'r cynllun ar waith
 - proses benderfynu'r partïon ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith
 - y broses ar gyfer rheoli unrhyw newidiadau i'r trefniadau yn y Bae, y Morglawdd ac ati
 - y broses ar gyfer asesu'r effeithiau disgwylidig ar y gwasanaethau, gan gynnwys pa un a fydd yr effeithiau'n rhai byrdymor ynteu hirdymor
 - y broses ar gyfer rheoli'r cyfathrebiadau angenrheidiol (mewnol ac allanol)
 - cynlluniau ar gyfer lleoli unrhyw staff ac adnoddau ychwanegol y mae eu hangen ar fyr rhybudd
 - y camau y mae eu hangen i ddychwelyd y gwasanaethau i'r drefn arferol unwaith y bydd y mater wedi'i ddatrys
 - trefniadau monitro amgen i'w gwneud yn bosibl i'r swyddogaethau monitro gofynnol barhau.
117. Gallai fod o fudd cynnwys gwybodaeth am y canlynol yn y CPB:
- unrhyw gydsyniadau y gall fod eu hangen gan drydydd partïon i roi'r cynllun ar waith
 - proses gymeradwyo'r partïon ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith
 - y broses ar gyfer cofnodi a chadw'r wybodaeth a gafwyd o ganlyniad i roi'r cynllun ar waith gan gynnwys diwygiadau i'r cynllun ei hun.

10 CRYNODEB O'R CASGLIADAU A'R ARGYMHELLION

Y Cytundeb Adran 165

118. O ystyried nifer y Gweithredoedd Amrywio y cytunwyd arnynt ers 2000, rydym yn argymhell bod fersiwn eglur a chyfun o'r Cytundeb Adran 165 yn cael ei llunio.
119. Dros y chwe blynedd ddiwethaf, mae cyllideb costau sefydlog AHC wedi gostwng yn gyson yn nhermau arian parod, ar gyfradd sy'n uwch na'r gostyngiad yn y cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Cynnal Refeniw i lywodraeth leol ledled Cymru.
120. Mae'r amrywiadau mewn gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb costau sefydlog ar y cyfan wedi bod yn fach iawn, er bod amrywiannau arwyddocaol wedi digwydd mewn perthynas â phenawdau cyllideb penodol.
121. O ystyried natur arbenigol rhai o asedau seilwaith AHC, sydd bellach tuag 20 oed, rydym yn argymhell bod sefydliad â phrofiad addas yn cael comisiwn ar y cyd gan AHC a Llywodraeth Cymru i gynnal arolwg cynhwysfawr o gyflwr yr asedau a chynllun cynnal a chadw ac adnewyddu asedau i'r dyfodol sy'n seiliedig ar asesiad risg, i oleuo lefelau'r gyllideb adnewyddu asedau yn y dyfodol. Rydym yn deall bod y broses hon yn mynd rhagddi bellach.
122. Gyda balans o tua £40,000 ar hyn o bryd, nid yw Cronfa Hapddigwyddiadau'r Harbwr yn gallu ynysu Llywodraeth Cymru yn effeithiol rhag ceisiadau ychwanegol nas rhagwelwyd am gyllid. Mae ei gallu parhaus i ateb ei diben bwriadedig yn debygol o fod yn ddibynnol ar argaeledd derbyniadau cyfalaf yn y dyfodol o werthu tir. Rydym yn argymhell bod AHC yn cynnal cyswllt ag Isadran Ystadau Llywodraeth Cymru er mwyn ffurfio dealltwriaeth gyffredin am y potensial tebygol ar gyfer derbyniadau cyfalaf yn y dyfodol.

Gweithgareddau AHC

123. Mae AHC yn darparu gwasanaeth o ansawdd da ac mae'n uchel ei barch ymhlith cleientiaid a rhanddeiliaid. Mae ein hasesiad ni'n cyd-fynd ag asesiad AHC ei hun, sef bod gweithgareddau AHC ym mhob ffordd berthnasol naill ai'n orfodol dan y Ddeddf neu'n destun rhwymedigaeth gytundebol dan y Cytundeb Adran 165.

Arbedion a Adnabuwyd

124. Gellir amcangyfrif arbedion £419,000 gyda chryn dipyn o hyder:
 - £134,000 y flwyddyn o 2020/21 yn dilyn dirwyn y Cynllun Diogelu Dŵr Daear i ben;
 - £135,000 y flwyddyn o 2020/21 wedi i'r contract gyda CNC ddod i ben yn unol â Rhaglen Lliniaru Pysgodfeydd Morglawdd Bae Caerdydd;
 - £150,000 y flwyddyn o 2022/3, o gynnydd mewn Tollau Harbwr, gan dybio nad yw'r her gyffredol yn cael ei chadarnhau, a bod y taliadau llawn heb ddisgownt yn cael eu cymhwyso.
125. Hefyd, gyda bron i 20 mlynedd o weithrediad llwyddiannus y morglawdd i'n goleuo, fe argymhellom ni y dylid ymchwilio i awgrymiadau AHC mewn perthynas â'r canlynol.

Byddai angen treial wedi'i reoli'n dda ar gyfer pob un ohonynt er mwyn sicrhau nad oes effaith niweidiol ar yr amgylchedd na lles pysgod:

 - Y potensial i weithredu'r ysgol bysgod ar sail fwy targededig yn gyson â'i defnydd, a allai ryddhau arbedion o tua £10,000 y flwyddyn, gan ddibynnu ar yr oriau gweithredu gwirioneddol;

- Llacio DPA1 “Canran y darlleniadau ocsigen tawdd ym Mae Caerdydd sy’n cyrraedd lefel o 5 miligram y litr o ocsigen tawdd neu fwy”. Nid yw’n bosibl meintioli maint arbedion o’r fathg nes bod trafodaethau wedi cael eu cynnal i benderfynu pa DPA diwygiedig, os o gwbl, fyddai’n dderbyniol i CNC.

Dadansoddiad o Wariant AHC yn ôl Swyddogaeth

126. Ceir gwahaniaethau yn y ffordd y mae gwybodaeth ariannol a chyllidebol AHC yn cael ei chyflwyno a’i dadansoddi at ddibenion monitro cyllideb AHC ei hun o’i gymharu â phan fo’r hawliadau grant chwarterol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yn ystod yr adolygiad, fe wnaethom drafod gydag AHC beth yw manteision dadgyfuno ei gyllideb staff a gorbenion (LA904) ar draws pob un o’i swyddogaethau, ac mae’r gwaith hwn bellach wedi’i wneud. Er mwyn symleiddio, gwella tryloywder a darparu un gyllideb gyffredin at ddibenion AHC a Llywodraeth Cymru rydym yn argymhell bod hyn yn cael ei fireinio ymhellach, gyda’r amcan o ddadgyfuno cyllideb AHC yn ei chyfanrwydd i gyfateb â’i swyddogaethau, fel bod cost net cyflawni pob un yn dod yn amlwg.

Ailddosbarthu Eitemau yn y Gyllideb Costau Sefydlog fel rhai Cyfalaf

127. Yn seiliedig ar ein dadansoddiad o Gyllideb Costau Sefydlog 2019/20, o fewn y cyllidebau Cynnal a Chadw Cyfleusterau a Chynnal a Chadw’r Morglawdd, mae tua £500,000 yn ymwneud â chynnal a chadw ac adnewyddu’r morglawdd ac ardal y bae y gellid ei wneud yn wariant cyfalaf.

Argymhellion ar gyfer Trefniadau Ariannu Mwy Hirdymor ac Amgen

128. Er bod setliadau ariannu tair blynedd wedi cael eu hatal yn amodol ar gwblhau’r adolygiad hwn, rydym yn argymhell, er mwyn hwyluso’r broses o gynllunio gwasanaethau’n effeithiol, bod setliadau ariannu tair blynedd yn cael eu hailgyflwyno, gyda’r amseriad yn cyfateb â chylch cyllidebol Llywodraeth Cymru.
129. O safbwynt Llywodraeth Cymru, mae cyfrifoldeb cyllidebol yn gorwedd gyda’r Isadran Adfywio a Chartrefi a Lleoedd. Er bod adeiladu’r morglawdd ac ailddatblygu ardal y Bae wedi dechrau fel prosiect adfywio sylweddol, ar ôl bod yn weithredol am 20 mlynedd, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei chyfrifoldeb cyllidebol mewnol mewn perthynas ag AHC yn briodol. Rydym ni o’r farn y gallai trosglwyddo cyfrifoldeb cyllidebol i’r Isadran Llywodraeth Leol fod yn fwy priodol yn awr.
130. Mae’r rhwymedigaeth i ariannu gweithgareddau AHC yn unol â’r Ddeddf a’r Cytundeb Adran 165 yn gorwedd gyda Llywodraeth Cymru. Mae’r arbenigedd i gyflawni gweithgareddau AHC yn gorwedd o fewn AHC a’r Cyngor. Mae gweithgareddau AHC yn gwneud cyfraniadau pwysig tuag at amcanion strategol y Cyngor (fel a nodir yn Adran 7) o fewn ardal proffil uchel ar gyfer y brifddinas. Mae AHC, ar ôl gwneud arbedion sylweddol, yn dal i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da, mae’n uchel ei barch ymhlith ei gleientiaid a’i randdeiliaid ac mae wedi bod yn gweithredu heb ddigwyddiad am 20 mlynedd. Yng ngoleuni’r uchod, rydym yn argymhell bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i drosglwyddo’r cyfrifoldeb am ariannu a chyflawni i’r Cyngor trwy drosglwyddiad arian heb ei neilltuo, i weld a ellir dod o hyd i ddatrysiad sy’n dderbyniol i bawb – gan y byddai hyn o fwy o gymorth i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Efallai y bydd angen i’r driniaeth a roddir i adnewyddu a chynnal a chadw asedau eistedd y tu allan i unrhyw drefniadau o’r fath, o ystyried eu maint, oni bai y gellir cytuno ar drefniant cronfa ad-dalu.

Cyfraniadau Strategol AHC

131. Mae AHC yn gwneud cyfraniad eang tuag at gyflawni amcanion strategol Llywodraeth Cymru a'r Cyngor. Fel lleoliad uchel ei broffil yn y brifddinas, Bae Caerdydd a rôl AHC yn y rhain, mae'n gwneud cyfraniad mwy a hwnnw'n gyfraniad mwy uniongyrchol tuag at uchelgeisiau'r Cyngor, er enghraifft trwy gynnal digwyddiadau arwyddocaol megis Ras Fôr Volvo neu'r Wyl bwyd a diod ryngwladol.
132. Gyda gostyngiadau yn y gyllideb Digwyddiadau yn y dyfodol, fe'n hysbysir y bydd angen i ddigwyddiadau o'r fath eu hariannu eu hunain yn awr, a allai leihau gallu gweithgareddau AHC i gyfrannu at uchelgeisiau o'r fath.

Sefydliadau Tebyg Posibl

133. Yn seiliedig ar yr ymchwil ddesg gyfyngedig a wnaed, nid ydym wedi gallu dod o hyd i sefydliad sylweddol debyg i AHC y gallai'r partion ei ddefnyddio at ddibenion meincnodi.

Trefniadau Llywodraethu AHC

134. Mae llywodraethu'n "llai manwl" ac yn weithredol i raddau helaeth o ran ei natur, ond mae'n gweithredu ar y cyfan yn unol â'r Cytundeb Adran 165. Mae hyn mwy na thebyg yn adlewyrchu'r ffaith nad oes unrhyw faterion sylweddol wedi codi hyd yma.
135. Rydym yn argymhell bod trefniadau llywodraethu AHC yn cael eu cyfoethogi trwy bresenoldeb gan swyddogion ar rengoedd uwch yn Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn flynyddol, a hynny felly'n hwyluso trafodaethau mwy strategol gan gynnwys cymeradwyo'r cynllun busnes blynyddol yn ffurfiol. Rydym yn argymhell bod cofrestr risg ar gyfer AHC yn cael ei pharatoi, gyda risgiau'n cael eu hadnabod, eu dyrannu i'r unigolyn priodol a mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith a'u monitro.

Atodiad A: Telerau Allweddol y Cytundeb 165

Mae'r ymgymeriad allweddol dan y Cytundeb Adran 165 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyflawni'r holl swyddogaethau a dyletswyddau statudol a gynhwysir yn Neddf 1993, a pha bynnag swyddogaethau anstatudol eraill a ddisgwylir fel arfer gan awdurdod harbwr. Fe wnaethom grynhoi'r agweddau allweddol ar yr ymgymeriad hwn ym mharagraff 11 o'r adroddiad hwn.

Rydym yn nodi isod y telerau allweddol mewn perthynas â chostau, y gyllideb a chyfnodau ariannu, monitro ac adrodd ar berfformiad, hawliadau a threfniadau talu.

Costau

Mae Cymal 16.1 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu i'r Cyngor y symiau sy'n angenrheidiol i wneud y canlynol:

- cyflawni ei swyddogaethau dan Ddeddf 1993
- cynnal a chadw'r holl eiddo sy'n rhan o'r Bae, y Morglawdd a'r ardaloedd ategol
- cyflawni'r rhwymedigaethau sydd wedi'u cynnwys mewn contractau ategol/cysylltiedig
- bodloni unrhyw rwymedigaethau sy'n codi o weithredoedd neu ddiffyg gweithredu gan drydydd partïon

Mae Cymal 16.2 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gytuno gyda'r Cyngor ar swm o gyllid a rhestr o weithgareddau ar gyfer pob cyfnod ariannu (y dylai pob un ohonynt fod yn gyfnod o dair blynedd). Os yw costau gwirioneddol cyflawni'r gweithgareddau hyn yn fwy neu'n llai na'r hyn a gytunwyd, yna dylai'r costau ychwanegol neu'r arbedion (yn eu tro) gael eu rhannu rhwng y partïon. Bydd costau adnewyddu asedau'n cael eu talu gan Lywodraeth Cymru yn ôl rhestr ddangosol y cytunwyd arni gan y partïon ar ddechrau pob cyfnod ariannu.

Mae Cymal 16.4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor greu cymaint â phosibl o incwm o'r Bae.

Os yw'r Cyngor yn defnyddio unrhyw gyllid at ddiben gwahanol i'r hyn y'i bwriadwyd ar ei gyfer, bydd hawl gan Lywodraeth Cymru i adennill yr agwedd hon ar y cyllid dan Gymal 16.10.

Mae Cymal 16.11 yn nodi y dylai'r partïon gytuno ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol, targedau a threfniadau monitro perfformiad a'u hadolygu ar ddechrau pob blwyddyn fusnes.

Mae Cymal 16.14 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ymweld â'r Cyngor i archwilio unrhyw weithgareddau perthnasol, asedau cyfalaf, cyfrifon, cofnodion a dogfennau.

Mae Cymal 16.15 yn ei gwneud yn ofynnol adolygu Cymal 16 bob 6 blynedd gan ddechrau o 1 Ebrill 2011, a dylai Atodlenni 8-10 gael eu hadolygu bob 3 blynedd gan ddechrau o 1 Ebrill 2014, dan Gymal 16.15.

Mae Cymal 16.16 yn cwmpasu Cronfa Hapddigwyddiadau a Phrosiect yr Harbwr. Cyfrif a ddelir gan y Cyngor yw hwn ac y gellir ei ddefnyddio mewn perthynas â'i rwymedigaethau dan Ddeddf 1993, ac i ariannu gwaith i wella ac ychwanegu at seilwaith, asedau, gweithgareddau neu wasanaethau yn y Bae neu o'i amgylch. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw isafswm o £100,000 yn y Gronfa hon ar unrhyw adeg benodol (wedi'i ostwng i £40,000 bellach yn dilyn gweithred amrywio). Mae'n ofynnol i'r Cyngor dynnu arian i lawr o'r Gronfa hon hyd at y lefel hon cyn cyflwyno unrhyw hawliadau ychwanegol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chostau nas rhagwelwyd.

Os yw'r Cyngor yn esgeulus wrth gyflawni ei rwymedigaethau dan y Cytundeb A. 165, mae Cymal 16.17 yn caniatáu i Lywodraeth Cymru adennill costau y gellid yn rhesymol eu rhagweld.

Y Gyllideb a'r Cyfnod Ariannu

Mae Atodlen 8 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a'r Cyngor gytuno ar gyllideb costau sefydlog dros dair blynedd, a chost amcangyfrifedig y cynigion adnewyddu asedau, ar gyfer 2014/15, 2015/16 a 2016/17.

Monitro ac Adrodd ar Berfformiad

Mae Atodlen 9 yn nodi'r trefniadau monitro ac adrodd ar berfformiad. Mae Rhan A yn ei gwneud yn ofynnol i AHC ddarparu adroddiadau ysgrifenedig ar berfformiad yn chwarterol ac yn flynyddol. Mae Paragraff 8 yn nodi y dylai adroddiadau gynnwys esboniadau lle y bo'n briodol ynglŷn â pham nad yw unrhyw dargedau neu gerrig milltir wedi cael eu cyrraedd, a pham nad yw unrhyw allbynnau a deilliannau wedi cael eu cyflawni.

Mae Paragraff 14 o Atodlen 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r partïon gytuno ar ddyddiadau i gwrdd a thrafod cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes, yr adroddwyd arno yn ei adroddiadau chwarterol a blynyddol, ac unrhyw destunau perthnasol eraill mewn cysylltiad â'r Cytundeb a.165.

Mae Rhan B o Atodlen 9 yn nodi amserlen o ddyddiadau allweddol ar gyfer adrodd ar fonitro ariannol a pherfformiad.

Hawliadau a Thaliadau

Mae Atodlen 10 yn nodi'r trefniadau ar gyfer cynllunio ariannol, hawliadau a thaliadau. Mae Paragraff 7 yn nodi y bydd cyllid yn cael ei ddarparu ar sail hawliad chwarterol ardstyedig gan y Cyngor ar gyfer y chwarter sydd i ddod. Caiff manylion yr hyn sy'n ofynnol yn y ffurflen hawlio honno eu nodi yng ngweddill Atodlen 10.

Mae hawl gan y Cyngor i wneud hawliadau am gyllid ychwanegol dan baragraffau 24 a 25 yn Atodlen 10. Gall y Cyngor wneud hawliad os yw'n ysgwyddo unrhyw gostau gwirioneddol mewn perthynas â'r gweithgareddau sydd i'w hariannu dan gymal 16 nad oedd yn bosibl eu hadnabod neu eu meintoli, neu os yw'n ysgwyddo unrhyw gostau gwirioneddol y tu hwnt i'r symiau a nodir yn Atodlen 8 a gofnodwyd fel rhai sydd â chyfyngiad neu amod yn gysylltiedig â hwy.

Os na ellir talu'r costau gwirioneddol o'r gyllideb flynyddol yna bydd y Cyngor yn ceisio awdurdodiad gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar gyfer cynnydd i'r gyllideb flynyddol. Dan rai amgylchiadau gall y Cyngor ysgwyddo'r costau heb gael yr awdurdodiad gan Lywodraeth Cymru yn gyntaf.

Mae Paragraff 32 o'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gael cydsyniad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ymlaen llaw ar gyfer unrhyw newid defnydd sylweddol i ased.

Mae Rhan B o Atodlen 10 yn nodi amserlen o ddyddiadau allweddol ar gyfer adrodd ar fonitro ariannol a pherfformiad.

Atodiad B: Dadansoddiad o Gyllideb Gorbenion AHC 2019/20

Safleoedd	£
RT: Adeiladu	40,000
Uned Saernïo	25,000
Atgyweiriadau, Addasiadau a Chynnal a Chadw	20,000
Contractau Cynnal a Chadw	40,000
Lwfansau'r Ymrwymiad Lleihau Carbon	7,000
Trydan	15,000
Nwy	5,000
Nwy Propan	1,500
Rhenti	85,000
Ardrethi Annomestig Cenedlaethol	90,000
Cyflenwadau Dŵr â Mesurydd	3,000
Deunyddiau Glanhau	100
Glanhau ar Gontract	60,100
Angenrheidiau'r Cartref a Thoiledau	1,000
Premiymau Yswiriant Safleoedd	20,000
Hawliadau Yswiriant Eiddo	15,000
	427,700

Trafnidiaeth	£
Atgyweirio Cychod	1,000
Tanwydd a Chostau Rhedeg eraill	300
Llogi Peiriannau ac Offer	1,000
Lwfansau Ceir	2,000
Treuliau Teithio	2,000
Premiymau Yswiriant Ceir	2,000
Hawliadau Yswiriant Ceir	3,000
	11,300

Cyflenwadau a Gwasanaethau	£
Prynu/Atgyweirio Dodrefn	4,000
Offer Swyddfa	2,000
Offer Argraffu Cynlluniau	2,000
Peiriannau ac Offer Newydd	500
Offer a Deunyddiau	15,000
Defnyddiau Traul	4,000
Prynu Offer Cegin	200
Offer Iechyd a Diogelwch	3,000
Darpariaethau Cyffredinol	300
Iwnifformau ac Oferôls	4,000
Oferôls a Dillad Diogelwch	2,000
Argraffu a Deunydd Swyddfa Cyffredinol	3,500
Ailgodï Tâl Rhesymoli Argraffu	700
Iechyd a Diogelwch	2,000
Ffi Archwilio	3,000
Ffi'r Comisiwn Archwilio – Hawliad Grant	5,000
Ffioedd Ymgynghorwyr	20,000
Comisiwn	500
Cyngor Cyfreithiol Allanol	8,000
Treuliau Cyfreithiol Cyffredinol	1,000
Contractwyr Allanol	25,000
Cyfrif Cadw TGCh	8,000
Cyfnewidfa Ffôn Ganolog	15,000
Ffonau	5,500
Postio	8,000
Ffonau Symudol	1,000
Taliadau Rhyngrwyd	500
Prynu Meddalwedd Cyfrifiadurol	5,000
Defnyddiau Traul Cyfrifiadurol	1,000
Prynu Caledwedd Cyfrifiadurol	10,000
Trwydded Meddalwedd Cyfrifiadurol/Cytundeb MICE	1,000
Cynnal a Chadw a Datblygu	3,000
Lluniaeth ar gyfer Cyfarfodydd	1,000
Ceisiadau ac Apeliadau Cynllunio	2,000
Tanysgrifiadau	2,000
Premiymau Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus	2,000
Hawliadau Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus	24,000
Yswiriant – Premiymau Amrywiol	90,000
Yswiriant – Hawliadau Amrywiol	8,000
	292,700

Gwasanaethau Cymorth	£
Cyfrifyddiaeth Gwasanaeth	17,860
Yswiriant	15,240
Adennill Incwm	530
Y Gyflogres	1,110
Taliadau	2,150
Caffael	7,070
Ystadau Strategol	35,380
Cymorth SAP	19,000
Gwasanaethau TGCh	28,000
Adnoddau Dynol – Gwasanaethau Pobl	24,740
Gwasanaethau Cyfreithiol	7,820
Gwasanaethau Ôl-Gorfforaethol	1,210
Iechyd a Diogelwch	8,200
Cyfathrebu	28,470
Cyfieithu Cymraeg	2,280
Ailgodi Tâl Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd	100,000
Datblygu Prosiect (EMU)	20,000
Adain Gweinyddu Traffig (Meysydd Parcio)	42,000
Gwasanaeth Cwnsela Cyflogeion	500
Ailgodi Tâl Cerbydau CTS	65,000
Gwasanaethau Gweinyddol a Rennir	10,000
	436,560

ATODIAD C: Swyddogaethau AHC

Cyfrifoldeb	Disgrifiad	Swyddogaeth(au) AHC	Gorfodol (G) dan y Ddeddf, Cytundebol (C) dan y Cytundeb Adran 165, neu Ddewisol (D)
Gweithredu'r morglawdd	Cynnal a chadw ac atgyweirio'r morglawdd, sy'n cynnwys agor a chau'r lociau, rheoli'r ffyrdd a.y.b.	Morglawdd	G – a. 7(1) C – a. 165, c.15.1
	Diogelu a gwella amgylchedd ac amwynderau'r bae.	Morglawdd, Yr Amgylchedd	G – a. 7(2)
	Dilyn unrhyw gyfarwyddyd rhesymol a roddir gan yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol.	Morglawdd, Yr Amgylchedd	G – a. 8(1)
	Rhoi ystyriaeth i ddiogelwch cychod.	Morglawdd	G – a. 9(2)
Rheoli'r bae a'r harbwr mewnol	Cyflawni rôl Awdurdod Harbwr.	Harbwrfeistr	G – a. 17(1) C – a. 165, c. 15.4
	Sicrhau bod ansawdd dŵr yn y bar yn cyrraedd y safon berthnasol.	Yr Amgylchedd, Harbwrfeistr	G – a. 12(1) C – a. 165, c. 15.4
	Hwyluso a hybu defnydd o'r bae ar gyfer cychod hamdden, chwaraeon dŵr a.y.b. Amcanu at gynyddu nifer yr ymwelwyr.	Harbwrfeistr, Parciau a Hamdden	G – a. 13(1) C – a. 165, c. 15.8
	Cynnal a chadw angorfeydd, rhoi trwyddedau ac ymdrin â ffioedd a thaliadau.	Harbwrfeistr	G – a. 13(4)
	Datblygu a gwarchod fflora a ffawna.	Yr Amgylchedd, Harbwrfeistr	G – a.14 C – a. 165, c. 15.10
	Gall osod taliadau ar gychod am gael defnyddio'r morglawdd, y bae a'r harbwr.	Morglawdd, Harbwrfeistr	D – a. 15
	Os yw rhan o'r strwythur llanwol wedi'i ddifrodi, hysbysu'r parti perthnasol, a chymryd camau i atal perygl, a gwneud atgyweiriadau os cyfarwyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.	Harbwrfeistr	G – Atodlen 6
	Darparu'r seilwaith sy'n angenrheidiol i weithredu'r pwerau a chyflawni'r dyletswyddau dan Ddeddf Morglawdd 1993 gan gynnwys parcio ceir, llithrfeydd, cyfleusterau i'r cyhoedd a mannau gwybodaeth.	Morglawdd, Yr Amgylchedd	C – a. 165, c. 15.9

Cyfrifoldeb	Disgrifiad	Swyddogaeth(au) AHC	Gorfodol (G) dan y Ddeddf, Cytundebol (C) dan y Cytundeb Adran 165, neu Ddewisol (D)
Is-ddeddfau	Gall wneud is-ddeddfau ar gyfer rheoli a llywodraethu'r bae a'r harbwr.	Morglawdd, Harbwrfeistr	D – a. 16(1)
Sefydlu ac ymgynghori â phwyllgor cyswllt	Ymgynghori â'r pwyllgor ar faterion sy'n effeithio ar amgylchedd neu amwynderau'r bae, neu fordwyo yn y bar a'r harbwr.	Yr Amgylchedd, Harbwrfeistr	G – a. 20
Diogelu rhag Difrod gan Ddŵr Daear	Canfod, atal a/neu atgyweirio difrod i eiddo sy'n deillio o unrhyw addasiad i lefelau dŵr daear a all ddigwydd.	Yr Amgylchedd	G – a. 21 ac Atodlen 7 C – a. 165, c. 15.5
Cydydffurfio â deddfwriaeth berthnasol	<p>Deddf Adnoddau Dŵr 1991</p> <p>Deddf Harbwrs 1964</p> <p>Deddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907</p> <p>Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975</p> <p>Deddf Cymalau Harbwrs, Dociau a Phierau 1847</p> <p>Deddf Draenio Tir 1991</p> <p>Deddf Priffyrdd 1980</p> <p>Cydydffurfio â'r holl ddeddfau amgylcheddol mewn cysylltiad â gweithredu'r morglawdd er mwyn cyrraedd safonau amgylcheddol gofynnol Asiantaeth yr Amgylchedd.</p>	Morglawdd, Yr Amgylchedd, Harbwrfeistr, Parciau a Hamdden	<p>G – a. 8(3), 15(4), 15(6), 18, 22, ac Atodlen 4</p> <p>C – a. 165, c. 15.3</p>
Cydydffurfio â dogfennau atodol	Dogfennaeth Atodol Deddf Morglawdd 1993	Morglawdd, Yr Amgylchedd, Harbwrfeistr, Parciau a Hamdden	C – a. 165, c. 15.11 ac Atodlen 3
Cyflawni'r swyddogaethau dan y Ddeddf, cynnal pob eiddo, a chyflawni rhwymedigaethau cytundebol	<p>Cyflawni'r rhwymedigaethau cytundebol yn y dogfennau a restrir yn Atodlenni 1, 2 a 3 o'r Cytundeb A.165.</p> <p>Bodloni unrhyw rwymedigaeth sy'n codi o weithred neu ddiffyg gweithredu gan drydydd parti pan fo'r Cyngor yn cyflawni'r gweithgareddau hyn.</p>	Morglawdd, Yr Amgylchedd, Harbwrfeistr, Parciau a Hamdden	C – a. 165, c. 16(1)

Cyfrifoldeb	Disgrifiad	Swyddogaeth(au) AHC	Gorfodol (G) dan y Ddeddf, Cytundebol (C) dan y Cytundeb Adran 165, neu Ddewisol (D)
Rhannu costau ychwanegol neu arian sydd dros ben.	Os yw costau gwirioneddol cyflawni'r gweithgareddau a nodir yn uwch na'r swm a nodwyd yna bydd y partion yn rhannu'r gost ychwanegol yn gyfartal. Os yw costau gwirioneddol cyflawni'r gwasanaethau'n llai na'r swm penodedig yn y gyllideb bydd y gwahaniaeth rhwng y ddau swm yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y partion.	Morglawdd, Yr Amgylchedd, Harbwrfeistr, Parciau a Hamdden	C – a. 165, c. 16(2)
Cynyddu incwm i'r eithaf	Creu cymaint â phosibl o incwm o'r Bae a phob Eiddo	Morglawdd, Yr Amgylchedd, Harbwrfeistr, Parciau a Hamdden	C – a. 165, c. 16(4), 17, 18
Paratoi cynllun	Paratoi cynllun ar gyfer pob Cyfnod Busnes sy'n dangos ar gyfer pob blwyddyn y mae'r cynllun yn ymwneud â hi sut y gall fynd ati yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol i adnewyddu asedau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r swyddogaethau dan y Ddeddf, pob eiddo a drosglwyddwyd iddo a'r cytundebau a restrir yn Atodlenni 1, 2 a 3 o'r Cytundeb A. 165.	Morglawdd, Yr Amgylchedd, Harbwrfeistr, Parciau a Hamdden	C – a. 165, c. 16.8
Rheoli'r gweithrediadau	Sicrhau bod y dyletswyddau'n cael eu rheoli'n briodol.	Morglawdd, Yr Amgylchedd, Harbwrfeistr, Parciau a Hamdden	C – a. 165, C. 19.1
Rheoli'r cyllid	Sicrhau bod yr holl gyllid yn cael ei gymhwyso i gyflawni'r rhwymedigaethau dan y Cytundeb A.165... peidio â defnyddio'r cyllid at unrhyw ddiben arall gyda'r bwriad bod y dywededig gyllid yn cael ei neilltuo a bod yr holl incwm a gaiff ei greu yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r diben.	Morglawdd, Yr Amgylchedd, Harbwrfeistr, Parciau a Hamdden	C – a. 165, c. 119.2

Atodiad D: Unigolion yr Ymgynghorwyd â Hwyt

Wrth gynnal yr adolygiad hwn, mae Local Partnerships wedi ymgynghori â'r unigolion canlynol:

AHC:

Jon Maidment (Rheolwr Gweithredol)
Andy Vye-Parminter (Harbwrfeistr)
Chris Seddon (Rheolwr y Morglawdd)
Natalie Taylor (Arweinydd Tîm, Contractau a'r Amgylchedd)
Dave Westerland (Swyddog Cyswllt Cymunedol)

Llywodraeth Cymru:

John Howells (Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio)
Mark Williams (Pennaeth y Strategaeth Adfywio, yr Is-adran Cartrefi a Lleoedd)
Colin Squire
Nigel Thomas (Prif Syrfëwr Ystadau)

CNC:

Liz Felton

ABP:

Callum Couper (Rheolwr Porthladd)

Atodiad E: Dogfennau a Adolygwyd

Wrth lunio'r adroddiad hwn, mae Local Partnerships wedi adolygu'r dogfennau canlynol:

- Taenlen gysoni Associated British Ports 2016-18;
- Papur Trafod Darpariaeth Warchodol a Lliniaru Siltio Sianel Wrach gan Associated British Ports / AHC, dyddiedig 19 Tachwedd 2018;
- Cytundeb Boskalis Westminster Ltd ar gyfer carthu'r harbwr allanol a'r sianel ddynesu at ddibenion cynnal a chadw dyddiedig 30 Mehefin 2017;
- Taenlen Crynodeb o'r Gyllideb 2018/19;
- y Cynllun Rheoli Parhad Busnes ar gyfer y Morglawdd;
- "Uchelgais Prifddinas", cynllun corfforaethol trosfwaol Cyngor Caerdydd, gan gynnwys eu gweledigaeth ar gyfer Bae Caerdydd;
- Trosolwg Weithredol Morglawdd Caerdydd;
- Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993;
- Cytundeb Bil Morglawdd Bae Caerdydd gydag Associated British Ports, dyddiedig 9 Tachwedd 1992;
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Caerdydd 2017/18;
- Datganiad Cyfrifon Cyngor Caerdydd 2017/18;
- Adroddiadau Blynyddol AHC ar gyfer 2016/17 a 2017/18;
- Cyllideb Adnewyddu Asedau AHC 2018/19;
- Rhaglen Adnewyddu Asedau AHC 2018/19 (x4);
- Nodyn briffio AHC ar ailstrwythuro posibl (cyfrinachol);
- Cynllun Busnes AHC 2018/19;
- Cymorth Canolig AHC gyda seiliau dosrannu;
- Cyflwyniad PowerPoint ar Strwythurau Cyflogeion AHC;
- Map Perchnogaeth Tir AHC;
- Cyllideb Arfaethedig AHC 2019/20;
- Tuedd Gyllidebol Arfaethedig AHC;
- Cynigion Adnewyddu Asedau Dros Dro AHC 2019/20;
- Cynigion Arbedion Dros Dro AHC 2019/20;
- Proffil a Hawliad Grant Chwarterol AHC – Chwarter 4;
- Adroddiadau chwarterol AHC 2016/17 (x4), 2017/18 (x4), 2018/19 (x3);
- Staff a gorbenion AHC 2017/18;
- Rhestr wirio ar gyfer hawliadau cymorth grant, Chwarter 4: 2017-2018;
- Copi o fonitro AHC;
- Copi o restr y gyllideb safleoedd;
- Copi o staff a gorbenion: cyflenwadau a gwasanaethau;
- Gweithred Amrywio dyddiedig 5 Ebrill 2011 yn mewnosod Cymal 16 newydd ac Atodlenni 8-10;
- Gweithred Amrywio dyddiedig 2014 mewn perthynas â Chronfa Hapddigwyddiadau a Phrosiect yr Harbwr;
- Gweithred Amrywio dyddiedig 5 Ebrill 2017 yn gohirio'r adolygiad tan fis Ebrill 2018;
- Gweithred Amrywio dyddiedig 26 Ebrill 2018 yn gohirio'r adolygiad tan fis Ebrill 2019, ac yn ymrwmo i gadw isafswm o £40k yng Ngronfa Hapddigwyddiadau a Phrosiect yr Harbwr;
- Cyflawni Uchelgais Prifddinas: Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd 2019-22;
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cerbydau/Peiriannau Mewnol y Gwasanaethau Fflyd;

- Cytundeb Lliniaru Pysgodfeydd dyddiedig 29 Mai 2008;
- Trwydded Forol CNC DML1540;
- Cais am Daliad gan AHC ar gyfer 4^{ydd} Chwarter 2017-18;
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth Rheoli Plâu 2018/19;
- adroddiadau a chanfyddiadau adolygiadau blaenorol o AHC yn 2006 a 2010;
- Datganiad Incwm a Gwariant (“Ffurflen Grant”) 2016/17 a 2017/18;
- y Cytundeb Adran 165 a Gweithredoedd Amrywio dilynol;
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth Glanhau Strydoedd 2018/19;
- Cytundeb Adran 165 rhwng Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a Chyngor Caerdydd;
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth Pren 2018/19;
- Datganiadau Gwaredu UK Dredging ar gyfer Symiau a Ddyddodwyd;
- Amodau Mewnol UK Dredging ar Ddarparu Cychod Carthu 2018, a chynlluniau cysylltiedig;
- Astudiaeth ddichonoldeb dechnegol cyn ymchwilio gan Wallace Evans & Partners;
- “Symud Cymru Ymlaen 2016-21” gan Lywodraeth Cymru

Manylion cyswllt

Howel Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Local Partnerships

E-bost: howel.jones@local.gov.uk

Ffôn: 0207 187 7379 / 07710 795 205

Huw Russell, Cyfarwyddwr Prosiect, Local Partnerships

E-bost: huw.russell@local.gov.uk

Ymwadiad

Lluniwyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn â phob ewyllys da gan Local Partnerships ac ni fydd Local Partnerships yn ysgwyddo unrhyw atebolrwydd am unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu sy'n deillio o ddibyniaeth ar yr adroddiad (gan gynnwys unrhyw wybodaeth ynddo) gan unrhyw sefydliad neu unigolyn arall. Dylai unrhyw sefydliad neu unigolyn arall sydd wedi cael yr adroddiad hwn gymryd eu cyngor cyfreithiol, ariannol a/neu gyngor proffesiynol perthnasol arall eu hunain wrth ystyried pa gam gweithredu (os o gwbl) i'w gymryd mewn perthynas ag unrhyw fenter, cynnig neu drefniant arall cysylltiedig, neu cyn dibynnu ar yr adroddiad (gan gynnwys unrhyw wybodaeth a gynhwysir ynddo) mewn unrhyw ffordd.

Hawlfraint

© Local Partnerships LLP 2019